Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Hysbysiadau Hwylus Cyfansoddiadol

## Cyfres

Mehefin 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Hysbysiadau Hwylus Cyfansoddiadol

## Cyfres

Mehefin 2026

**Awdur:**
Josh Hayman

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys


**1. Cymru yn y Deyrnas Unedig ..... 9**

Cyfansoddiad y DU ..... 9

Hanes datganoli yng Nghymru ..... 10

**2. Y Senedd ..... 16**

Y Cyfarfod Llawn ..... 16

Pwyllgorau ..... 17

Pwerau trethiant ..... 17

Etholiadau’r Senedd ..... 18

Pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ..... 19

Llenwi seddi gwag ..... 19

Anghymhwyso Aelodau o'r Senedd ..... 19

Adalw Aelodau o'r Senedd ..... 21

**3. Y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd ..... 23**

Deiliaid Swyddi ..... 23

Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd Cyntaf ..... 24

Ethol ail Ddirprwy Lywydd ..... 24

Pleidleisio mewn trafodion ..... 25

Tymor y swydd ..... 25

Cadeirio Comisiwn y Senedd ..... 26

Cadeirio'r Pwyllgor Busnes ..... 26

Swyddogaethau a phwerau'r Llywydd ..... 26

**4. Comisiwn y Senedd ..... 28**

Comisiwn y Senedd ..... 28

Clerc y Senedd ..... 29

**5. Llywodraeth Cymru ..... 31**

Prif Weinidog Cymru ..... 31

Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru ..... 32

Trefnydd ....... 32
Atebolrwydd Gweinidogion Cymru ....... 32
Y Cwnsler Cyffredinol ....... 33
**6. Deddfau'r Senedd a'r Broses Ddeddfwriaethol ....... 36**
Beth yw Deddfau'r Senedd? ....... 36
Cyflwyno Bil ....... 36
Gwahanol fathau o Filiau'r Senedd ....... 37
Y weithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau ....... 37
Y gofyniad am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai deddfwriaethau ....... 38
Y broses ddeddfwriaethol ....... 39
Biliau Aelod ....... 41
Biliau Cydgrynhoi ....... 42
Y Goruchaf Lys yn craffu ar Filiau'r Senedd ....... 43
**7. Is-ddeddfwriaeth ....... 45**
Gweithdrefn y Senedd ar Offerynnau Statudol ....... 45
Gweithdrefn annilysu'r Senedd ....... 46
Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ....... 47
Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd ....... 48
Y weithdrefn uwchgadarnhaol ....... 48
Dim gweithdrefn ....... 49
Gwaith craffu pwyllgorau ar Offerynnau Statudol ....... 49
Ymdrin ag Offerynnau Statudol Cymreig gweithdrefn annilysu'r Senedd ....... 51
Ymdrin ag Offerynnau Statudol Cymreig gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ....... 52
Adnoddau pellach ar is-ddeddfwriaeth ....... 52
**8. Cydsyniad Deddfwriaethol ....... 54**
Cefndir: 'Confensiwn Sewel' ....... 54
Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Senedd ....... 55
Natur gyfreithiol Confensiwn Sewel ....... 57
**9. Ysgrifennydd Gwladol Cymru ....... 59**

Swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru ........ 59
Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Etholiadau’r Senedd ........ 60

**10. Geirfa ........ 61**

# 1. Cymru yn y Deyrnas Unedig

## Cyfansoddiad y DU

Mae’r DU yn ddemocratiaeth seneddol sydd â Sofran cyfansoddiadol fel Pennaeth y Wladwriaeth. Mae hyn hefyd yn gwneud y DU yn frenhiniaeth gyfansoddiadol.

Mae rôl y Sofran yn nhrefniadau cyfansoddiadol y DU wedi datblygu dros amser. Heddiw, mae'r rôl yn seremonïol i raddau helaeth gyda phŵer gweithredol yn cael ei arfer gan Lywodraeth y Sofran, sydd â mandad democrataidd i lywodraethu.

Arweinir y llywodraeth gan Brif Weinidog a benodir gan y Sofran, sydd hefyd yn penodi gweinidogion ar gyngor y Prif Weinidog. Mae Llywodraeth y DU yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU sy'n cynnwys y Sofran, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae llywodraeth y dydd yn dal ei swydd yn rhinwedd ei gallu i ennyn hyder Tŷ'r Cyffredin.

Mae pŵer hefyd wedi'i ddatganoli yn y DU i ddeddfwrfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, mae ganddynt gymhwysedd deddfwriaethol ar bob mater nad yw'n cael ei gadw'n benodol (a'i 'eithrio' yng nghyd-destun Gogledd Iwerddon) i Senedd y DU.

Mae rhagor o bwerau cyfyngedig wedi cael eu datganoli i ranbarthau yn Lloegr a grwpiau o awdurdodau lleol a elwir yn awdurdodau cyfun. Cafodd Maer Llundain a Chynulliad Llundain eu sefydlu yn 2000, gyda rhagor o ardaloedd, fel Manceinion Fwyaf, yn cael pwerau datganoledig cyfyngedig ers 2014.

I gynrychioli’r cenhedloedd datganoledig yn Llywodraeth y DU, mae swyddfeydd tiriogaethol y wladwriaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu harwain gan Ysgrifenyddion Gwladol sy'n weinidogion ar lefel cabinet yn Llywodraeth y DU.

Daliad allweddol yng nghyfraith gyfansoddiadol y DU yw mai Senedd y DU yw'r awdurdod cyfreithiol goruchaf yn y DU. Gelwir hyn yn egwyddor sofraniaeth seneddol. O dan y ddealltwriaeth uniongred o’r term, mae gan Senedd y DU bŵer diderfyn i lunio neu ddad-wneud unrhyw ddeddfau fel y gwêl yn briodol. Yn gyffredinol, ni all y llysoedd ddiystyru ei deddfwriaeth ac ni all unrhyw Senedd basio deddfau na all Seneddau yn y dyfodol eu newid.

Mae'r egwyddorion yn anad dim yn rhan o gyfansoddiad y DU. Fodd bynnag, yn wahanol i'r mwyafrif o wledydd, nid yw'r cysyniadau cyfansoddiadol hyn wedi'u cydgrynhoi mewn un ddogfen. Oherwydd hyn, dywedir yn aml bod gan y DU 'gyfansoddiad anysgrifenedig'. Fodd bynnag, mae'n fwy cywir dweud nad oes gan y DU gyfansoddiad wedi'i godio.

Mae cyfansoddiad y DU wedi esblygu dros amser ac mae'n cynnwys amrywiol ffynonellau megis sefydliadau, statudau, penderfyniadau barnwrol, egwyddorion ac arferion a gaiff eu deall yn gyffredin fel 'cyfansoddiadol'.

Gall ffynonellau gynnwys dogfennau o arwyddocâd cyfansoddiadol, megis y Magna Carta, statudau sy'n sail i'r setliadau datganoli, yr Uchelfraint Frenhinol a'r arferion anysgrifenedig a gydnabyddir fel confensiynau cyfansoddiadol.

## Hanes datganoli yng Nghymru

Datganoli yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o drosglwyddo pŵer o'r canol i genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

Mae datganoli'r DU yn anghymesur. Yn wahanol i system ffederal, lle mae taleithiau'n rhannu sofraniaeth â'r canol ac mae ganddynt bwerau tebyg â'i gilydd, mae'r trefniadau datganoledig yn y DU yn wahanol rhwng tiriogaethau. Mae hyn yn deillio o anghysonderau hanesyddol yn esblygiad cenhedloedd y DU, megis awdurdodaethau a sefydliadau cyfreithiol cyferbyniol, a natur dameidiog datganoli yn y DU.

Mae'r adran hon yn trafod rhai o'r prif ddigwyddiadau ar hyd y broses ddatganoli yng Nghymru hyd yma.

### Datganoli Gweinyddol

Gellir olrhain gwreiddiau datganoli yng Nghymru yn ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.Ym 1881, daeth Deddf Cau ar y Sul y darn cyntaf o ddeddfwriaeth benodol i Gymru i gael ei phasio yn Senedd y DU.

Yn yr ugeinfed ganrif dechreuwyd datganoli gweinyddol yng Nghymru drwy greu Bwrdd Addysg Cymru ym 1907, a **ddisgrifiwyd** fel y gydnabyddiaeth gyntaf gan unrhyw adran o'r llywodraeth bod angen triniaeth ar wahân i Gymru.

Parhaodd y duedd ar gyfer datganoli gweinyddol yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif gyda sefydlu Comisiynydd Amaethyddol Cymru ym 1912. Erbyn y 1950au, roedd 17 o adrannau wedi sefydlu unedau gweinyddol yng Nghymru sydd

wedi'u **nodweddu** fel datblygiad 'cwbl bragmatig', yn hytrach nag adlewyrchu unrhyw gynllun cyffredinol ar gyfer datganoli.

Yn y 1950au cynnar, gwnaeth sawl datblygiad esgor ar ddechrau'r broses o drosglwyddo pwerau o San Steffan i Gymru. Cafodd deisebau i greu Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu gwrthod gan Lywodraeth Lafur 1945-50, ond ffurfiwyd Cyngor Cymru a Sir Fynwy ym 1948 yn ei le. Corff anetholedig oedd hwn, a oedd yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar faterion Cymreig.

Ym 1951, crëodd y Llywodraeth Geidwadol swydd is-weinidogol newydd yn y Swyddfa Gartref, sef y Gweinidog Materion Cymreig. Nid oedd gan y Gweinidog unrhyw bwerau gweithredol ac roedd yn atebol i Dŷ'r Cyffredin am effaith gyffredinol polisi'r llywodraeth yng Nghymru. Cafodd y swydd ei huwchraddio i Weinidog Gwladol ym 1954.

Yn dilyn etholiad y DU ym 1964, crëodd y Llywodraeth Lafur newydd swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Y flwyddyn ganlynol, sefydlwyd Swyddfa Cymru i weithredu polisi Llywodraeth y DU yng Nghymru.

I ddechrau, roedd pwerau gweithredol yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'u cyfyngu i gyfrifoldeb dros dai, llywodraeth leol a ffyrdd. Ond yn raddol estynnwyd cyfrifoldebau'r swydd i gynnwys masnach, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth. Ychwanegwyd iechyd ym 1968, ac addysg gynradd ac uwchradd ym 1970.

Gan ymateb i'r diddordeb cynyddol mewn hunan-lywodraeth yng Nghymru a'r Alban, sefydlodd Llywodraeth y DU y **Comisiwn Brenhinol ar y Cyfansoddiad** ym 1969. Roedd Comisiwn Kilbrandon, fel 'i gelwid, yn argymell sefydlu Cynulliad i Gymru yn ei adroddiad ym 1973.

Ym 1974 arweiniodd hyn at y Lywodraeth Lafur yn cyhoeddi cynigion ar gyfer cynulliad a etholwyd yn uniongyrchol yng Nghymru gyda phwerau gweithredol, ond nid deddfwriaethol. Cynhaliwyd refferendwm ar y cynnig yng Nghymru ar Ddydd Gŵyl Dewi ym 1979. Gwrthodwyd y cynnig yng Nghymru gan fwyafrif o 4 i 1.

Yn y cyfnod yn dilyn y refferendwm ym 1979, daeth datganoli yn fater gwleidyddol segur yng Nghymru. Fodd bynnag, tyfodd cefnogaeth i ddatganoli yn ystod yr 1980au a'r 1990au. Ym mis Mai 1997 roedd maniffesto'r Lywodraeth Lafur newydd yn cynnwys ymrwymiadau i gynnal refferenda ar greu gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban.

Cynhaliwyd refferendwm ar 18 Medi 1997 yn cynnig creu Cynulliad yng Nghymru. Y canlyniad oedd 50.3 y cant o blaid, a 49.7 y cant yn erbyn gyda mwyafrif o ddim ond 6,721.

## Datganoli Gweithredol

Yn dilyn refferendwm 1997, pasiodd Senedd y DU **Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998** a ddarparodd y sylfaen gyfreithiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei greu fel un corff corfforaethol sengl, a oedd yn golygu nad oedd gwahaniad ffurfiol rhwng y weithrediaeth a’r ddeddfwrfa.

Galluogodd Deddf 1998 i swyddogaethau gweithredol (hynny yw, pwerau a dyletswyddau) gael eu trosglwyddo o Lywodraeth y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y swyddogaethau hyn mewn meysydd sy'n cyfateb yn fras i'r rhai a oedd yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, megis amaethyddiaeth, diwylliant, datblygu economaidd, addysg, iechyd, tai, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio. Yna cafodd deddfwriaeth bellach (a elwir yn **Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau)** eu gwneud o dan Ddeddf 1998 i drosglwyddo nifer fawr o swyddogaethau gweithredol yn y meysydd hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Daeth y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am gyflawni'r holl swyddogaethau a drosglwyddwyd mewn perthynas â Chymru.

Yn ymarferol, cafodd y pwerau a ddirprwywyd i'r Cynulliad eu dirprwyo ymhellach i'r Prif Weinidog ('Prif Ysgrifennydd' o dan Ddeddf wreiddiol 1998), ac yna, yn eu tro, fe'u trosglwyddwyd i weinidogion unigol (a elwir yn ysgrifenyddion y Cynulliad yn Neddf 1998) neu weision sifil.

Roedd y diffyg gwahanu ffurfiol rhwng cangen weithredol a deddfwriaethol y llywodraeth yn ddryslyd.Roedd pobl yn cael trafferth gwahaniaethu rhwng y rhai a oedd yn arfer pŵer (h.y. y Llywodraeth) a'r Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad, a'i rôl oedd dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

Mewn ymgais i ddatrys y dryswch, gwnaed newidiadau anffurfiol i'r derminoleg sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad. Er enghraifft, tua mis Hydref 2000, disodlodd y term 'Gweinidogion' y term 'Ysgrifenyddion', defnyddiwyd 'Prif Weinidog' yn lle 'Prif Ysgrifennydd' a disodlodd 'Cabinet' y 'Pwyllgor Gweithredol'. Dechreuwyd defnyddio'r term 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' i ddisgrifio polisïau a gweithredoedd y Cabinet, gan ganiatáu i'r term 'Cynulliad Cenedlaethol' gyfeirio at waith craffu a gwaith cynrychioliadol a deddfwriaethol y ddeddfwrfa. Er i'r derminoleg newydd ddod yn reddfol, roeddent yn parhau i

fod yn deitlau anffurfiol yn yr ystyr nad oeddent yn cael eu cydnabod yn y gyfraith ar y pryd.

Yn 2002, sefydlwyd Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylid gwahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa fel endidau cyfreithiol unigol, ac y dylid datganoli pwerau deddfu sylfaenol i Gymru, ynghyd â chynyddu nifer yr Aelodau.

Derbyniwyd y rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn Richard gan Lywodraeth y DU, a rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 effaith iddynt. Roedd hyn yn darparu setliad datganoli newydd i Gymru ac yn dynodi cam nesaf datganoli, sef datganoli deddfwriaethol.

## Datganoli Deddfwriaethol

Gwahanodd **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yng Nghymru yn ffurfiol drwy greu Llywodraeth Cymru ('Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn wreiddiol) fel gweithrediaeth ddatganoledig Cymru.

Yn arwyddocaol, rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol basio ei brif ddeddfwriaeth ei hun am y tro cyntaf. Roedd hyn ar ffurf 'Mesurau'r Cynulliad' i ddechrau. Gellid pasio mesurau ar faterion datganoledig a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gellid diwygio'r atodlen hon hefyd i ychwanegu mwy o faterion datganoledig ac ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ymhellach. Yn gyffredinol, gwnaed diwygiadau o'r fath gan ddefnyddio **Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**.Pasiwyd dau ar hugain o Fesurau'r Cynulliad rhwng 2007 a 2011.

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn darparu i'r Cynulliad basio Deddfau, ond roedd hyn yn destun refferendwm cadarnhau. Cynhaliwyd refferendwm ar 3 Mawrth 2011 lle cefnogodd 63.5 y cant o bleidleiswyr ddatganoli pellach drwy ddatgloi pwerau'r Cynulliad i basio Deddfau.

Ym mis Hydref 2011, sefydlodd Llywodraeth y DU y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, (a elwir yn gyffredin y Comisiwn Silk) i adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru. Gofynnwyd iddo ystyried sut y gallai cwmpas datganoli gael ei newid i wasanaethu pobl Cymru yn well.

Yn 2012, cyhoeddodd Comisiwn Silk **Ran I ei adroddiad**, gan wneud argymhellion ar bwerau ariannol y Cynulliad. O ganlyniad i'r adroddiad hwn,

cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Cymru 2014 a oedd yn rhoi nifer o bwerau ariannol newydd i Gymru, gan gynnwys pwerau trethu a benthyca.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Comisiwn Silk ei **ail adroddiad**, sef 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru'. Argymhellodd yr adroddiad, ymhlith pethau eraill, y dylid mabwysiadu model datganoli cadw pwerau a datganoli mwy o bwerau i Gymru.

Nododd Llywodraeth glymblaid y DU gyfres o gynigion mewn ymateb i ail adroddiad y Comisiwn, gan gynnwys cyhoeddi papur gorchymyn yn 2015 o'r enw **Powers for a Purpose**.Yn cael ei adnabod fel Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, arweiniodd hyn yn y pen draw at basio Deddf Cymru 2017.

Newidiodd Deddf 2017 y setliad datganoli yng Nghymru o fodel 'rhoi pwerau' i fodel 'cadw pwerau' (eglurir y termau hyn yn yr eirfa). Roedd hefyd yn ymgorffori'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'r deddfau y maent yn eu gwneud fel rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU.

## Diwygiadau pellach i'r Senedd

Gan ragweld y byddai'r Senedd yn ennill pwerau newydd dros ei maint a'i threfniadau deddfwriaethol o dan **Ddeddf Cymru 2017**, sefydlwyd **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** i ddarparu:

> *[...]cyngor cadarn, gwleidyddol ddiduedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen er mwyn cynrychioli pobl Cymru yn effeithiol, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf*

Gwnaeth y Panel, dan gadeiryddiaeth yr Athro Laura McAllister, gyfres o **argymhellion ar gyfer newidiadau** i faint y Senedd, ei system etholiadol a phwy allai bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Mae rhai o'r argymhellion hyn wedi'u cyflwyno yn **Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**, a oedd yn gostwng yr oedran pleidleisio i 16, yn caniatáu i ddinasyddion tramor penodol bleidleisio a newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu Welsh Parliament.

Heb gonsensws gwleidyddol i gyflwyno gweddill y diwygiadau a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, sefydlodd y Senedd y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd** i edrych ar argymhellion eraill y Panel ac i amlinellu "**trywydd ar**

**gyfer diwygio**", a hynny er mwyn llywio ystyriaeth y pleidiau gwleidyddol o'u safbwyntiau polisi a'u maniffestos ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

Yn dilyn yr etholiad hwnnw, sefydlwyd y **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd** ym mis Hydref 2021 i lunio cynigion i'w cynnwys mewn Bil gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Senedd. Gwnaeth y Pwyllgor 31 o argymhellion, yr oedd rhai ohonynt yn wahanol i'r rhai y daethpwyd iddynt mewn adroddiadau blaenorol a rhai y cytunwyd arnynt gan fwyafrif yn unig o'r Pwyllgor.

Gwnaeth **Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** 2024, a fwriodd ymlaen â rhai o'r argymhellion hyn, ehangu maint y Senedd i 96 o Aelodau a chyflwyno **system etholiadol rhestr gaeedig.** Daeth y newidiadau hyn i rym yn etholiad cyffredinol y Senedd ym mis Mai 2026.

# 2. Y Senedd

Mae Adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn nodi y bydd senedd i Gymru a elwir yn Senedd Cymru. Cyfeirir ato’n aml fel “y Senedd”. Cyn 2020, roedd yn cael ei adnabod fel 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

Mae'r Senedd yn cynnwys 96 o Aelodau, a etholir gan ddefnyddio system cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig o 16 etholaeth. Gelwir yr aelodau yn 'Aelodau o'r Senedd' neu 'Members of the Senedd'. Maent yn cael eu hethol am dymor o bedair blynedd yn y swydd.

Y Senedd yw'r corff deddfu datganoledig ar gyfer Cymru. Mae'n pasio deddfwriaeth sylfaenol (Deddfau Senedd Cymru) mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg, trafnidiaeth a'r Gymraeg. Mae pwerau'r Senedd yn cael eu pennu gan 'fodel cadw pwerau'. Mae hyn yn golygu bod gan y Senedd gymhwysedd i basio deddfau ar unrhyw fater ac eithrio'r rhai a gedwir yn benodol i Senedd y DU yn Neddf 2006. Mae hyn wedi'i drafod yn fanylach yn yr adran 'Deddfau'r Senedd a'r Broses Ddeddfwriaethol'.

Mae'r Senedd wedi'i chydnabod fel rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig gan adran A1(1) o Ddeddf 2006. Mae Adran A1(3) o Ddeddf 2006 yn nodi ymrwymiad Senedd y DU a Llywodraeth y DU na ellir diddymu'r Senedd ac eithrio ar sail pleidlais gan bobl Cymru mewn refferendwm.

Caiff gweithdrefnau'r Senedd eu llywodraethu gan ei **Rheolau Sefydlog**. Maent yn rhagnodi sut y dylai'r Aelodau ymddwyn, sut y caiff Biliau eu prosesu a sut y caiff busnes y Senedd ei drefnu.

Y Senedd hefyd yw enw'r prif adeilad sy'n gartref i'r siambr ddadlau (y Siambr) ac ystafelloedd cyfarfod y pwyllgorau. Cafodd ei hagor yn 2006.

## Y Cyfarfod Llawn

Mae'r Senedd yn cyfarfod ar gyfer **Sesiynau Llawn** i gynnal dadleuon, clywed datganiadau llafar gan Lywodraeth Cymru ac i ystyried deddfwriaeth. Gall pob un o 96 Aelod y Senedd gymryd rhan mewn sesiynau’r Cyfarfod Llawn ac maent yn cael eu cadeirio naill ai gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd.

Mae'r Senedd yn cynnal sesiynau cwestiynau llafar wythnosol gyda'r Prif Weinidog a sesiynau o leiaf bob pedair wythnos gyda phob un o Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

## Pwyllgorau

Mae llawer o waith craffu'r Senedd yn digwydd yn ei phwyllgorau. Mae ganddynt ddwy swyddogaeth, sef ystyried materion polisi (yn aml drwy ymchwiliadau ffurfiol) a chynnal craffu deddfwriaethol yng nghyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol (gweler yr adran isod ar y broses ddeddfwriaethol). Y Pwyllgor Busnes sy'n penderfynu ar gylch gwaith pwyllgorau'r Senedd, fodd bynnag, mae rhai pwyllgorau sy'n ofynnol mewn statud:

- Mae pwyllgor archwilio (y cyfeirir ato yn aml fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) yn ofynnol yn ôl adran 30 o Ddeddf 2006;
- Mae pwyllgor safonau ymddygiad yn ofynnol yn ôl adran 30A o Ddeddf 2006; ac
- mae Pwyllgor y Llywydd, sy'n goruchwylio incwm a gwariant swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda wedi eu datganoli Cymru, yn ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae Rheolau Sefydlog y Senedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau gael eu sefydlu ar gyfer y swyddogaethau hyn:

- Pwyllgor busnes i hwyluso'r broses o drefnu busnes y Senedd yn effeithiol (Rheol Sefydlog 11);
- Pwyllgor â swyddogaethau cyllid (Rheol Sefydlog 19 a 20);
- Pwyllgor â swyddogaethau materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 21); a
- Pwyllgor neu bwyllgorau â swyddogaethau deisebu cyhoeddus (Rheol Sefydlog 23).

## Pwerau trethiant

Gwnaeth Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 **drosglwyddo rhai pwerau cyfyngedig dros drethiant** i'r Senedd. Y trethi hyn yw:

- Cyfraddau treth incwm Cymru;
- Treth Trafodiadau Tir (yn disodli'r Treth Dir y Dreth Stamp)

- Treth Gwarediadau Tirlenwi (yn disodli'r Dreth Dirlenwi).

Llywodraeth Cymru sy'n cynnig unrhyw newidiadau i'r trethi hyn a rhaid i'r Senedd eu cymeradwyo.

## Etholiadau'r Senedd

Fel y nodir yn adran 3 o Ddeddf 2006, cynhelir etholiadau cyffredinol cyffredin ar gyfer y Senedd ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai yn y bedwaredd flwyddyn galendr yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyffredin blaenorol.

Ni ellir cynnal etholiadau'r Senedd ar yr un dyddiad ag etholiad cyffredinol Senedd y DU. Pe bai'r dyddiadau hyn yn gwrthdaro, gall Gweinidogion Cymru bennu dyddiad gwahanol ar gyfer etholiad y Senedd drwy Orchymyn. Caiff y Llywydd hefyd gynnig cynnal y bleidlais mewn etholiad cyffredinol cyffredin ar ddiwrnod dim mwy nag un mis yn gynharach nac yn fwy nag un mis yn ddiweddarach na'r dydd Iau cyntaf ym mis Mai.

Mae'n ofynnol i'r Llywydd gynnig diwrnod ar gyfer cynnal pleidlais mewn 'etholiad cyffredinol eithriadol' os bydd un o'r ddau ddigwyddiad hyn yn digwydd:

- Os bydd o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer yr Aelodau yn pleidleisio o blaid cynnig bod y Senedd i'w diddymu; neu
- Os bydd y Senedd yn methu ag enwebu Prif Weinidog o fewn 28 o ddiwrnodau, unrhyw un o'r digwyddiadau hyn:
    - Cynnal pleidlais mewn etholiad cyffredinol;
    - Y Senedd yn penderfynu nad oes gan y Senedd hyder yng Ngweinidogion Cymru mwyach;
    - Y Prif Weinidog yn cyflwyno ei ymddiswyddiad i Ei Fawrhydi y Brenin;
    - Y Prif Weinidog yn marw neu'n methu'n barhaol â gweithredu neu'n cyflwyno ei ymddiswyddiad; neu
    - Y Prif Weinidog yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd (ac eithrio oherwydd diddymu'r Senedd).

## Pleidleisio yn etholiadau'r Senedd

I bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, rhaid i chi fod:

- Wedi eich cofrestru i bleidleisio mewn un o etholaethau'r Senedd;
- Yn 16 neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad; ac
- Yn ddinesydd cymwys o Brydain, Iwerddon neu'r Gymanwlad, yn ddinesydd yr UE, neu'n ddinesydd tramor cymwys.

Mae etholiadau'r Senedd yn defnyddio system cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig. O dan y system hon, gall pob person sydd â hawl i bleidleisio wneud hynny naill ai dros blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer yr etholaeth neu ymgeisydd unigol (annibynnol).

Ar ôl i'r pleidleisiau gael eu cyfrif, caiff seddi eu dyrannu i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgeiswyr unigol gan ddefnyddio dull D'Hondt. O dan ddull D'Hondt, mae seddi'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{Nifer\ y\ pleidleisiau}{Nifer\ y\ seddi\ a\ enillwyd\ eisoes+1}$$

Mae'r **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am system etholiadol y Senedd.

## Llenwi seddi gwag

Os bydd sedd Aelod o'r Senedd yn dod yn wag, caiff ei llenwi mewn un o ddwy ffordd:

- Os cafodd yr Aelod ei ethol yn Aelod o'r Senedd o restr a gyflwynwyd gan blaid wleidyddol gofrestredig, caiff ei ddisodli gan y person cymwys a bodlon nesaf ar restr y blaid wleidyddol honno o'r etholiad cyffredinol diwethaf. Os nad oes unrhyw un sy'n bodloni'r amodau hyn, bydd y sedd yn wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.
- Os oedd yr Aelod yn ymgeisydd unigol pan gafodd ei ethol yn Aelod o'r Senedd, bydd y sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.

## Anghymhwyso Aelodau o'r Senedd

I fod yn ymgeisydd yn un o etholiadau'r Senedd, rhaid i berson:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed,
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu’n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig; a
- bod wedi’i gofrestru yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn etholaeth yn y Senedd.

Mae rhai deiliaid swyddi wedi’u hanghymhwyso rhag sefyll ar gyfer y Senedd neu gael eu hethol i’r Senedd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Barnwyr;
- Gweision sifil;
- Aelodau'r lluoedd arfog rheolaidd;
- Aelodau heddlu;
- Aelodau o ddeddfwrfa y tu allan i’r DU;
- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Arglwydd-raglaw, rhaglaw neu uwch siryf unrhyw ardal yng Nghymru;
- Comisiynydd neu gomisiynydd ymchwiliol ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Comisiynydd Plant Cymru (a'r Dirprwy Gomisiynydd);
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (a'r Dirprwy Gomisiynydd);
- Comisiynydd y Gymraeg (a’r Dirprwy Gomisiynydd) ac aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg;
- Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru;
- Staff Comisiwn y Senedd.

Mae rhestr lawn o ddeiliaid swyddi anghymwys yn **Rhan 2 o Atodlen 1A** i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gall rhai deiliaid swyddi eraill sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau'r Senedd ond byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo o'u swydd cyn tyngu'r llw. Gellir dod o hyd i'r rhestr ddiweddaraf o'r deiliaid swyddi hyn yn y **Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025**.

Mae unigolion hefyd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd os:

- Maent wedi cael eu heuogfarnu o drosedd a'u dedfrydu neu eu gorchymyn i gael eu carcharu am gyfnod amhenodol neu am fwy na blwyddyn ac maent wedi'u cadw yn unrhyw le yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu yn yr Undeb Ewropeaidd, neu maent yn rhydd yn anghyfreithlon pan fyddent fel arall yn cael eu cadw;
- Maent wedi'u cael yn euog o gyflawni arfer llygredig neu anghyfreithlon o dan **Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** neu drosedd sy'n ymwneud â rhoddion. Mae'r rhain yn para am dair blynedd ar gyfer arfer anghyfreithlon a phum mlynedd ar gyfer arfer llygredig o'r dyddiad y caiff person ei adrodd yn euog gan lys etholiad neu ei gollfarnu;
- Maent yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu neu o dan **Ran 2** o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; neu
- Maent yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhad dyled neu orchmynion dros dro (neu mae eu hystâd wedi'i hatafaelu gan lys yn yr Alban ac nid ydynt wedi cael eu rhyddhau).

Mae deiliaid swyddi gwleidyddol hefyd wedi'u gwahardd rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. Gall Aelodau Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac aelodau cyngor sir, bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau'r Senedd ond rhaid iddynt ymddiswyddo o'u swydd os cânt eu hethol. Gall Aelodau Tŷ'r Arglwyddi sefyll fel ymgeiswyr ond rhaid iddynt gymryd absenoldeb o'r ddeddfwrfa honno os cânt eu hethol yn Aelod o'r Senedd.

## Adalw Aelodau o'r Senedd

Ym mis Mawrth 2026, cytunodd y Senedd ar **Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2026**, sy'n nodi system o adalw Aelodau'r Senedd. Mae'r system hon yn galluogi etholwyr i benderfynu a ddylai Aelod o'r Senedd gadw ei sedd neu gael ei ddiswyddo yn ystod ei dymor o ganlyniad i amgylchiadau penodol.

Mae dau amgylchiad wedi'u nodi yn y Ddeddf a fyddai'n sbarduno pleidlais adalw:

- Pan gaiff Aelod ei gollfarnu o drosedd yn y DU a phan gaiff ddedfryd o garchar o 12 mis neu lai; neu
- Pan fydd y Senedd yn pleidleisio i ddechrau pleidlais adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymell bod angen adalw (Digwyddiad Sbardun B).

Byddai pleidlais adlaw yn gofyn i bleidleiswyr yn etholaeth yr Aelod a ydynt am i'r Aelod gadw ei sedd neu gael ei ddiswyddo. Os bydd mwyafrif o'r rhai sy'n pleidleisio yn dewis diswyddo'r Aelod, byddai ei sedd yn dod yn wag. Yn yr achos hwn, bydd y sedd yn cael ei llenwi yn yr un modd ag unrhyw sedd wag arall (gweler uchod).

Nid yw'r system ar waith eto ac mae nifer o gamau y mae angen eu cymryd cyn y gellir adalw Aelod:

- Cyn y gellir cynnal unrhyw bleidlais adalw, rhaid i Weinidogion Cymru wneud darn o ddeddfwriaeth eilaidd i amlinellu'r manylion ynghylch sut y dylid cynnal pleidlais.
- Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad baratoi canllawiau adalw, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, cyn y gellir cychwyn pleidlais adalw o dan 'Ddigwyddiad Sbardun B'.

**Daeth Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau i'r casgliad yn ei adroddiad cyfnod 1 ar y Bil (ar y pryd)** na fydd adalw (yn enwedig ar gyfer Digwyddiad Sbarduno B) yn weithredol tan ymhell wedi dechrau'r Seithfed Senedd.

# 3. Y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd

Crëwyd swyddi'r Llywydd ('Llywydd') a'r Dirprwy Lywydd ('Dirprwy Lywydd') gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ac wedi hynny darperir ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006).

Yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd, rhaid i'r Senedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf. Gall y Senedd hefyd benderfynu ethol un Dirprwy Lywydd ychwanegol. Fodd bynnag, gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Senedd ac nid oes angen ei wneud yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad cyffredinol y Senedd. Yn y Rheolau Sefydlog cyfeirir at y rhain fel y Dirprwy Lywydd 'cyntaf' a'r 'ail' Ddirprwy Lywydd. Mae’r Llywydd yn gwasanaethu’r Senedd mewn modd diduedd a’i brif rôl yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, gan gadw trefn ac amddiffyn hawliau Aelodau o’r Senedd. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod busnes yn cael ei drin ar sail cydraddoldeb a didueddrwydd. Mae hefyd yn gyfrifol am y Rheolau Sefydlog a bod yr awdurdod terfynol ar eu dehongli. Mae'r Llywydd hefyd yn weithredol o ran cynrychioli buddiannau'r Senedd a buddiannau Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r Dirprwy Lywydd (neu Ddirpwy Lywyddion) yn dirprwyo ar ran y Llywydd yn ôl yr angen. Gall y Dirprwy Lywydd cyntaf gyflawni swyddogaethau'r Llywydd yn absenoldeb y Llywydd, neu os nad yw'r Llywydd yn gallu gweithredu am unrhyw reswm. Pe bai swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd Cyntaf ill dau yn wag, neu os na allant weithredu, rhaid i'r Ail Ddirprwy Lywydd (os bydd un yn y rôl) arfer swyddogaethau'r Llywydd. Gall y Llywydd hefyd, yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog, awdurdodi'r Dirprwy Lywydd i arfer swyddogaethau'r Llywydd.

## Deiliaid Swyddi

| | Llywydd | Y Dirprwy Lywydd |
|---|---|---|
| **Seithfed Senedd** | Huw Irranca-Davies AS | Kerry Ferguson AS |
| **Chweched Senedd** | Elin Jones AS | David Rees AS |
| **Y Bumed Senedd** | Elin Jones AS | Ann Jones AS |
| **Y Pedwerydd Cynulliad** | Y Fonesig Rosemary Butler AC | David Melding AC |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Trydydd Cynulliad** | Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC | Y Fonesig Rosemary Butler AC |
| **Yr Ail Gynulliad** | Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC | Dr John Marek AC |
| **Y Cynulliad Cyntaf** | Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC | Jane Davidson AC a Dr John Marek AC |

## Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd Cyntaf

Yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn etholiad y Senedd, rhaid i'r Senedd ethol o blith ei Haelodau Lywydd a Dirprwy Lywydd. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi na ddylai'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd berthyn i:

- yr un grŵp gwleidyddol;
- grwpiau gwleidyddol gwahanol lle mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu
- grwpiau gwleidyddol gwahanol lle nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu yn gyffredinol y bydd un yn dod o'r grŵp (neu'r grwpiau) gwleidyddol llywodraethol a'r llall o'r wrthblaid. Fodd bynnag, os bydd amgylchiadau'n newid yn ystod tymor Senedd gan arwain at y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn dod o fewn un o'r categorïau cyfyngedig hyn (megis perthyn i'r un grŵp gwleidyddol), gall unrhyw Aelod wneud cynnig fel y gall aros yn ei swydd.

Digwyddodd hyn yn y Trydydd Cynulliad, pan oedd y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC a'r Fonesig Rosemary Butler AC yn gwasanaethu fel y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd er eu bod yn perthyn i'r grwpiau gwleidyddol a oedd yn ffurfio llywodraeth glymblaid.

## Ethol ail Ddirprwy Lywydd

Ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Senedd, caiff y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd. Mae'r ail Ddirprwy Lywydd yn y swydd tan y dyddiad a nodir yn y cynnig, neu os nad yw'n nodi'r dyddiad, bydd yr ail Ddirprwy Lywydd yn peidio â bod yn y rôl ar adeg diddymu'r Senedd.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi na chaiff y Senedd ethol ail Ddirprwy Lywydd sy'n perthyn i'r canlynol:

- yr un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf;
- grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn perthyn i grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol; neu
- grŵp gwleidyddol sydd heb rôl weithredol os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn perthyn i grwpiau gwleidyddol sydd heb rôl weithredol.

Fel gydag ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd Cyntaf, gellir datgymhwyso'r gofyniad Rheol Sefydlog hwn drwy benderfyniad gan y Senedd a gaiff ei basio gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau yn pleidleisio o'i blaid.

## Pleidleisio mewn trafodion

Yn gyffredinol, dim ond yn nhrafodion Cyfarfod Llawn y Senedd i arfer pleidlais fwrw y gall y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd (neu Ddirprwy Lywyddion) bleidleisio wrth gadeirio Cyfarfod Llawn. Caiff cwmpas y pŵer hwn ei nodi yn Rheol Sefydlog 6.20.

Os yw trafodaeth bellach ar fater gerbron y Senedd yn bosibl, rhaid i'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd bleidleisio yn gadarnhaol (h.y. o blaid y cynnig). I'r gwrthwyneb, rhaid iddynt bleidleisio yn erbyn cynigion pan nad yw'n bosibl trafod ymhellach. Er enghraifft, os oes pleidleisiau cyfartal yng ngham olaf y broses o basio Bil y Senedd, nid oes lle i drafod ymhellach sy'n olygu y byddai'n ofynnol i'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd bleidleisio yn erbyn y Bil.

Ar wahân i bleidleisiau bwrw, gall y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd (neu Ddirprwy Lywyddion) hefyd bleidleisio yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn lle mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynnig gael ei basio ar sail uwch-fwyafrif (h.y. pleidlais lle nad yw nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o'i blaid yn llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer seddi'r Senedd).

## Tymor y swydd

Mae'r Llywydd yn dal y swydd hyd nes bod Llywydd newydd yn cael ei ethol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad yw'r Llywydd yn peidio â dal ei swydd yn awtomatig o ganlyniad i ddiddymu cyn etholiad cyffredinol y Senedd. I'r gwrthwyneb, mae'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn peidio â dal ei swydd pan fo'r

Senedd yn cael ei diddymu. Os etholir ail Ddirprwy Lywydd, bydd hefyd yn peidio â bod yn y rôl ar adeg diddymu'r Senedd ond gall fod yn y swydd am gyfnod byrrach os nodir hynny yn y cynnig a gyflwynir i'w benodi (gweler uchod).

Gall deiliaid swydd ymddiswyddo, a byddent hefyd yn peidio â dal eu swydd ar ôl peidio â bod yn Aelod o’r Senedd heblaw yn sgil diddymiad (e.e. drwy ymddiswyddo fel Aelod o'r Senedd) neu drwy gael eu diswyddo drwy benderfyniad y Senedd.

## Cadeirio Comisiwn y Senedd

Crëodd Deddf 2006 gorff corfforaethol o'r enw Comisiwn y Senedd i roi'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd (a drafodir yn fanylach isod). Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys **y Llywydd a phedwar Aelod arall o’r Senedd**. Y Llywydd sy'n cadeirio cyfarfodydd Comisiwn y Senedd. Os nad oes Llywydd yn y swydd, neu os na all y Llywydd weithredu, yna gall Comisiwn y Senedd benodi un o'i aelodau eraill i lywyddu cyfarfodydd.

## Cadeirio'r Pwyllgor Busnes

Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am drefnu busnes y Senedd. Ei rôl yw sicrhau bod trafodion y Senedd yn mynd rhagddynt yn effeithiol. Y Llywydd sy'n cadeirio'r cyfarfodydd **sy'n cael eu mynychu gan** y Trefnydd a Rheolwr Busnes o bob un o'r grwpiau gwleidyddol eraill a gynrychiolir yn y Senedd.

At y dibenion hyn, mae'r Rheolau Sefydlog yn diffinio grŵp gwleidyddol fel o leiaf bum Aelod sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd. Gall pum aelod neu fwy nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hyn hefyd ffurfio grŵp gwleidyddol os yw'r Llywydd yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Os oes pump neu fwy o Aelodau yn y Senedd nad ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol, gallant ffurfio grŵp er mwyn cael cynrychiolydd fel aelod o'r Pwyllgor Busnes. Os oes llai na phump Aelod yn y Senedd nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol, gall bob un ohonynt fod yn bresennol yn nhrafodion y Pwyllgor Busnes.

## Swyddogaethau a phwerau'r Llywydd

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Pŵer i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol y Senedd hyd at fis, yn gynharach neu'n hwyrach, i ddyddiad statudol yr etholiad (adran 4(1) o Ddeddf 2006);
- Gweinyddu'r llw neu'r cadarnhad i unrhyw un sy'n rhoi tystiolaeth yn nhrafodion y Senedd (adran 40(1)(b) o Ddeddf 2006);
- Dynodi unigolyn i weithredu fel Prif Weinidog ar argymhelliad Gweinidogion Cymru os nad yw'r Prif Weinidog yn gallu gweithredu, mae wedi peidio â bod yn Aelod o'r Senedd, neu os yw'r swydd yn wag fel arall (adran 46(5) o Ddeddf 2006);
- Argymell i'r Frenhines ddewis y Senedd ar gyfer Prif Weinidog (adran 47(4) o Ddeddf 2006);
- Penderfynu a nodi a yw darpariaethau Bil y Senedd, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (adran 110(3) o Ddeddf 2006);
- Gofyniad i'w hysbysu mewn amrywiol amgylchiadau:
    - Enw unigolyn i lenwi sedd wag (adran 11(2) o Ddeddf 2006);
    - Ymddiswyddiad Aelod (adran 15 o Ddeddf 2006);
    - Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd nad oes angen i unigolyn gydymffurfio â galwad i fynd i drafodion y Senedd neu gyflwyno dogfennau yn ei feddiant (adran 38(5)(a) o Ddeddf 2006);
    - Os bydd llys yng Nghymru a Lloegr yn euogfarnu Aelod o'r Senedd o drosedd y mae'r Aelod wedi'i ddedfrydu neu wedi'i orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw amdani (adran 3 o Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) 2026) ("Deddf 2026").
    - Dyletswydd i bennu'r dyddiad ar gyfer pleidlais adalw a hysbysu swyddog canlyniadau etholaeth yr Aelod (adran 6 o Ddeddf 2026).

# 4. Comisiwn y Senedd

Crëodd Deddf 2006 Gomisiwn y Senedd. Corff statudol yw hwn a grëwyd i ddarparu’r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

## Comisiwn y Senedd

Mae **Adran 27** o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer proses sefydlu, aelodaeth a swyddogaethau’r Comisiwn ac yn darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd at ei ddibenion (neu i drefnu bod y pethau hyn yn cael eu darparu iddi).

Mae **aelodaeth y Comisiwn** yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall o’r Senedd.

### Penodi Aelodau'r Comisiwn

Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad cyffredinol y Senedd, rhaid i'r Senedd drafod cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes yn cynnig enwau'r pedwar Aelod sydd i'w penodi'n aelodau o'r Comisiwn o dan Ddeddf 2006.

I’r graddau y mae hynny’n rhesymol ymarferol, dylai aelodau’r Comisiwn (ar wahân i’r Llywydd) fod yn perthyn i grwpiau gwleidyddol gwahanol.

Os oes pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol yn y Senedd, y pedwar grŵp gwleidyddol mwyaf sy’n gyfrifol am roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes pwy yw’r Aelod a enwebir o'i grŵp gwleidyddol.

Os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol yn y Senedd, rhaid i bob grŵp gwleidyddol roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am yr Aelod a enwebir o'i grŵp a bydd y Pwyllgor Busnes wedyn yn penderfynu ar enw unrhyw Aelod ychwanegol a fydd yn cael ei enwebu.

Os bydd gan ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un nifer o aelodau, y Llywydd fydd yn penderfynu pa un ohonynt sydd i’w ystyried fel yr un mwyaf, gan ystyried lefel y gefnogaeth etholiadol sydd gan bob un o’r grwpiau gwleidyddol dan sylw.

### Ymddiswyddo neu Ddiswyddo

Mae aelod o'r Comisiwn yn ymddiswyddo o'r Comisiwn drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Clerc, ond ni all y Llywydd ymddiswyddo o'r Comisiwn.

Gall unrhyw Aelod gyflwyno cynnig sy'n cynnig y dylid diswyddo Aelod penodol (ac eithrio'r Llywydd) o'r Comisiwn. Os cytunir ar y cynnig mewn Cyfarfod Llawn, tynnir yr Aelod o'r Comisiwn ar unwaith.

### Adroddiad Blynyddol a Chyllid

Ar ôl bob blwyddyn ariannol, **rhaid** i'r Comisiwn gyhoeddi a **gosod adroddiad gerbron y Senedd** yn ymwneud ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

**Rhaid** i Gomisiwn y Senedd hefyd baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyflwynir y cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru, archwilydd allanol statudol y **rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru**, i'w harchwilio a'u hardystio.

### Dyletswyddau a phwerau eraill

Yn ôl **Paragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006**, rhaid i Gomisiwn y Senedd gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae **Paragraff 5 o Atodlen 2** hefyd yn darparu pŵer i Gomisiwn y Senedd hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau llywodraeth ddatganoledig ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru.

## Clerc y Senedd

Mae adran 26 o Ddeddf 2006 yn darparu bod yn rhaid i Gomisiwn y Senedd benodi person i fod yn Glerc y Senedd.

Y Clerc hefyd yw **Prif Weithredwr Comisiwn y Senedd**, sef yr aelod uchaf o staff Comisiwn y Senedd. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y Senedd, ac Aelodau o'r Senedd, yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau fel bod y Senedd yn ennyn hyder a bod ganddi enw da am ddemocratiaeth hygyrch ac effeithlon.

O dan Atodlen 2 i Ddeddf 2006, caiff Comisiwn y Senedd ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i'r Clerc. Felly hefyd, gall y Clerc awdurdodi unrhyw aelod arall o staff Comisiwn y Senedd i arfer swyddogaethau ar eu rhan. Os yw swydd

y Clerc yn wag, neu os nad yw'r Clerc yn gallu gweithredu am unrhyw reswm, caiff unrhyw aelod arall o staff y Senedd a awdurdodir gan Gomisiwn y Senedd arfer swyddogaethau'r Clerc.

O dan adran 138 o Ddeddf 2006, y Clerc hefyd yw'r **Prif Swyddog Cyfrifyddu** ar gyfer Comisiwn y Senedd. Mae'r swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod arian y trethdalwyr yn cael ei wario'n unol â'r gyfraith ac yn unol â rheolau a gynlluniwyd i sicrhau y caiff ei wario'n briodol ac yn dryloyw.

Mae gan y Clerc hefyd nifer o swyddogaethau gweithdrefnol o dan Reolau Sefydlog y Senedd a Deddf 2006, gan gynnwys:

- tystio i Aelodau newydd o'r Senedd sy'n tyngu llw neu'n cadarnhau teyrngarwch;
- cyhoeddi a chynnal manylion busnes arfaethedig y Senedd;
- trefnu etholiad i benodi Llywydd dros dro os na all y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd (neu Ddirprwy Lywyddion) weithredu;
- derbyn hysbysiad bod Biliau'r Senedd wedi cael Cydsyniad Brenhinol a hysbysu'r Senedd o ddyddiad y cydsyniad hwnnw;
- cyhoeddi rheolau sefydlog o bryd i'w gilydd; a
- bod y person dynodedig i'w hysbysu o dan rai amgylchiadau; megis Aelodau'r Senedd sy'n dymuno ychwanegu eu henwau at gynigion, neu aelodau Comisiwn y Senedd sy'n dymuno ymddiswyddo.

# 5. Llywodraeth Cymru

Mae Deddf 2006 yn nodi mai Llywodraeth Cymru yw cangen weithredol y system wleidyddol ddatganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn cynnwys y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a nifer o Weinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru.

Mae pwerau gweithredol Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- datblygu a gweithredu polisi;
- arfer ystod o swyddogaethau datganoledig;
- creu is-ddeddfwriaeth; a
- chynnig Deddfau'r Senedd.

## Prif Weinidog Cymru

Caiff Prif Weinidog Cymru ei benodi gan y Brenin ar argymhelliad y Llywydd, yn dilyn pleidlais yn y Senedd.

Mae enwebu Aelod o'r Senedd i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru yn cael ei **sbarduno** gan un o'r digwyddiadau a ganlyn:

- cynnal pleidlais mewn etholiad cyffredinol;
- y Senedd yn penderfynu nad oes gan y Senedd hyder yng Ngweinidogion Cymru mwyach;
- Prif Weinidog Cymru yn cyflwyno ei ymddiswyddiad i'r Frenhines;
- Prif Weinidog Cymru yn marw neu'n methu â gweithredu neu gyflwyno ei ymddiswyddiad; a
- Phrif Weinidog Cymru yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd, ac eithrio os caiff ei ddiddymu (e.e. drwy ymddiswyddo o'r Senedd).

Os bydd un o'r rhain yn digwydd, rhaid i'r Senedd enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod. Os bydd yn methu â gwneud hynny, **rhaid i'r Llywydd bennu diwrnod** lle cynhelir etholiad cyffredinol 'eithriadol'.

Os bydd y Senedd yn pasio pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion Cymru, mae Deddf 2006 yn **darparu** bod y Prif Weinidog yn aros yn ei swydd hyd nes y penodir olynydd, ond rhaid i Weinidogion Cymru ymddiswyddo. Datrysir y sefyllfa pan fydd y Senedd yn enwebu Prif Weinidog newydd (neu'n ailenwebu'r un person yn Brif Weinidog).

## Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru

Ar ôl penodi'r Prif Weinidog, gall benodi Aelodau o'r Senedd i ddod yn aelodau o Lywodraeth Cymru, gyda chymeradwyaeth y Frenhines. Gellir penodi Aelodau o'r fath fel **Gweinidogion Cymru** neu **Ddirprwy Weinidogion Cymru** a gall y Prif Weinidog eu diswyddo ar unrhyw adeg.

Gall y Prif Weinidog hefyd argymell i'r Frenhines benodi Cwnsler Cyffredinol. Trafodir swydd y Cwnsler Cyffredinol ymhellach isod.

Mae Deddf 2006 yn cyfyngu maint Llywodraeth Cymru i ddwy ar bymtheg o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion, heb gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

Gall yr uchafswm hwn gael ei **gynyddu ymhellach** i 18 neu 19 drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan o leiaf dwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd.

## Trefnydd

Mae'r Trefnydd yn Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am drefnu busnes y llywodraeth yn y Senedd. Mae'r Trefnydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ym Mhwyllgor Busnes y Senedd ac yn cyflwyno datganiad busnes wythnosol i'r Senedd.

## Atebolrwydd Gweinidogion Cymru

Caiff Llywodraeth Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd. Mae gwaith craffu yn digwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys:

- Cwestiynau llafar wythnosol i'r Prif Weinidog:
    - Bob wythnos mae'r Senedd yn eistedd, rhaid sicrhau bod uchafswm o 60 munud ar gael yn y Cyfarfod Llawn i'r Prif Weinidog ateb cwestiynau llafar. (Rheol Sefydlog 12.56(i)). Mae pleidlais a gynhelir ar ran y Llywydd yn penderfynu pa Aelodau all gyflwyno cwestiynau.

- Cwestiynau llafar pedair wythnos o leiaf i bob un o Weinidogion Cymru a’r Cwnsler Cyffredinol:
    - Pan fydd y Senedd yn eistedd, rhaid sicrhau bod o leiaf 45 munud unwaith ym mhob pedair wythnos ar gael i bob un o Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ateb cwestiynau mewn perthynas â'u cyfrifoldebau (Rheol Sefydlog 12.56(ii)).
- Cwestiynau Ysgrifenedig i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol:
    - Mae Rheol Sefydlog 14 yn darparu fframwaith ar gyfer Aelodau o’r Senedd i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i aelodau Llywodraeth Cymru ynghylch eu maes cyfrifoldeb. Rhaid cyflwyno cwestiynau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddynt gael eu hateb a chânt eu derbyn ar ddisgresiwn y Llywydd.
- Pŵer i alw tystion:
    - Mae gan y Senedd **bwerau** o dan Ddeddf 2006 i'w gwneud yn ofynnol i dystion fynychu Trafodion y Senedd (gan gynnwys pwyllgorau) i roi tystiolaeth, neu i gyflwyno dogfennau sydd ym meddiant neu reolaeth yr unigolyn hwnnw sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.
    - Yn ymarferol, mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i nifer o waharddiadau, ond mae'n golygu bod gan y Senedd bŵer statudol i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymddangos gerbron y Senedd a'i phwyllgorau.

## Y Cwnsler Cyffredinol

**Section 49** of the 2006 Act provides for the appointment of a Counsel General to the Welsh Government. Their role entails:

- darparu cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru;
- goruchwylio gwaith yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol;
- goruchwylio cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn y llysoedd;

- ystyried a oes angen cyfeirio Biliau sydd wedi'u pasio gan y Senedd at y Goruchaf Lys i benderfynu a ydynt o fewn cymhwysedd y Senedd (wedi'i arfer yn annibynnol ar y llywodraeth);
- cyflawni unrhyw swyddogaethau eraill er budd y cyhoedd gan gynnwys, pan fo'r Cwnsler Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol, cychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â swyddogaethau Llywodraeth Cymru (wedi'u harfer yn annibynnol ar y llywodraeth); a
- chyfrifoldeb dros hygyrchedd Cyfraith Cymru.

O dan **Adran 45(1)(c)** o Ddeddf 2006, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn aelod o Lywodraeth Cymru.

Mae'r rôl hon yn cyfateb i rôl **Twrnai Cyffredinol** a **Chyfreithiwr Cyffredinol** Llywodraeth y DU.

## Telerau penodi

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cael ei benodi gan y Frenhines ar argymhelliad Prif Weinidog Cymru, ond rhaid i'r argymhelliad gael ei gymeradwyo gan y Senedd.

Nid oes rhaid i'r unigolyn a benodir fod yn Aelod o'r Senedd, ond mae cyn-ddeiliaid fel arfer wedi bod yn Aelodau sy'n gwasanaethu.

Gwaherddir y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru rhag dal swydd y Cwnsler Cyffredinol o dan **Ddeddf 2006**. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd y Cwnsler Cyffredinol yn benodol rhag cael ei benodi i unrhyw un o'r swyddi hynny.

Caiff y Prif Weinidog, gyda chytundeb y Senedd, argymell i'r Frenhines gael gwared ar y Cwnsler Cyffredinol ar unrhyw adeg. Gall y Cwnsler Cyffredinol hefyd gyflwyno ei ymddiswyddiad i'r Frenhines ar unrhyw adeg.

Yn wahanol i Weinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, nid oes rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol ymddiswyddo ar ôl pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Cwnsler Cyffredinol **yn awtomatig yn peidio** â dal ei swydd ar enwebiad Prif Weinidog newydd. Ond gall y Prif Weinidog newydd ei ailbenodi.

Os yw swydd y Cwnsler Cyffredinol yn wag, neu os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn methu â gweithredu am unrhyw reswm, gellir arfer swyddogaethau'r swydd

gan unigolyn sydd wedi'i ddynodi gan y Prif Weinidog. Mae'r dynodiad yn ôl disgresiwn y Prif Weinidog, wedi'i gyfyngu gan amser i chwe mis ac nid oes unrhyw ofyniad i'r Senedd na'r Frenhines gymeradwyo.

## Cyfranogiad y Cwnsler Cyffredinol yn nhrafodion y Senedd

Mae **Rheol Sefydlog 9** yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r Cwnsler Cyffredinol. Yn ystod trafodion y Senedd, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi y gall y Cwnsler Cyffredinol wneud unrhyw beth o dan y Rheolau Sefydlog a all gael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Fodd bynnag, os nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Aelod o’r Senedd, mae Rheol Sefydlog 9.4 yn darparu y gall y Cwnsler Cyffredinol gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd, ond na chaiff bleidleisio.

Disgwylir i'r Cwnsler Cyffredinol, boed yn Aelod o’r Senedd ai peidio, ateb cwestiynau llafar ac ysgrifenedig a gwneud datganiadau llafar neu ysgrifenedig.

**Mae Adran 34 o Ddeddf 2006** yn ymdrin â chyfranogiad y Cwnsler Cyffredinol yn nhrafodion y Senedd. Mae'n rhoi disgresiwn i'r Cwnsler Cyffredinol wrthod darparu dogfennau neu ateb cwestiynau mewn unrhyw drafodion Seneddol ynghylch gweithrediad y system erlyn troseddol mewn unrhyw achos troseddol penodol os yw o'r farn y gallai gwneud hynny:

- ragfarnu'r trafodion yn yr achos hwnnw; neu
- byddai fel arall yn groes i fudd y cyhoedd.

## Achosion Cyfreithiol

Mae’r Cwnsler Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn y llysoedd. **Gall** y Cwnsler Cyffredinol gychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â materion ynghylch unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Cwnsler Cyffredinol yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo neu warchod lles y cyhoedd.

# 6. Deddfau'r Senedd a'r Broses Ddeddfwriaethol

## Beth yw Deddfau'r Senedd?

O dan **Rhan 4** o Ddeddf 2006, gall y Senedd wneud deddfau o'r enw 'Deddfau'r Senedd' ym mhob maes lle mae ganddi gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae'r model datganoli yng Nghymru yn seiliedig ar y model cadw pwerau. Mae hyn yn golygu bod gan y Senedd gymhwysedd i basio deddfau ar unrhyw fater ac eithrio'r materion hynny a gedwir yn benodol i Senedd y DU yn Neddf 2006.

Nodir cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn **Adran 108A** ac **Atodlenni 7A** a **7B** o Ddeddf 2006.

Mae gan Ddeddf y Senedd yr un grym a statws cyfreithiol â Deddf Senedd y DU. Er enghraifft, yn amodol ar fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gall Deddf y Senedd addasu deddfwriaeth bresennol Senedd y DU a gwneud darpariaeth newydd nad yw'n dod o dan statudau presennol.

Fodd bynnag, mae Senedd y DU **yn cadw'r hawl** i ddeddfu ar gyfer Cymru, hyd yn oed ar faterion datganoledig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol drostynt. Mae hyn yn ddarostyngedig i gonfensiwn cyfansoddiadol na fydd Senedd y DU fel rheol yn gwneud hynny heb gydsyniad y Senedd.

## Cyflwyno Bil

O dan adran 110 o Ddeddf 2006, gall y Prif Weinidog, unrhyw un o Weinidogion Cymru, unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno Biliau yn y Senedd.

Ategir y darpariaethau statudol yn Neddf 2006 gan Reolau Sefydlog y Senedd sy'n darparu fframwaith mwy cyflawn sy'n rheoli'r broses o gyflwyno Biliau yn y Senedd. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y gellir cyflwyno Biliau drwy:

- Aelod o Lywodraeth Cymru;
- Pwyllgorau'r Senedd;
- Comisiwn y Senedd; neu

- Aelod o’r Senedd a ddewiswyd mewn proses **bleidleisio**.

## Gwahanol fathau o Filiau’r Senedd

Gall Biliau’r Senedd fod yn:

- **Filiau Cyhoeddus** - ceisio newid y gyfraith fel y mae'n berthnasol i'r boblogaeth gyffredinol;
- **Biliau Preifat** - pan fo hyrwyddwr, fel arfer unigolyn neu sefydliad yn ceisio pwerau penodol sy'n fwy na'r gyfraith gyffredinol neu'n gwrthdaro â hi. Dim ond fel y mae'n berthnasol i'r hyrwyddwr penodol, yn hytrach na'r boblogaeth gyffredinol, y mae Biliau Preifat yn newid y gyfraith.
- **Biliau Hybrid** - Bil Cyhoeddus a gyflwynir gan aelod o Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fuddiant preifat penodol unigolyn neu gorff yn wahanol i’r ffordd y mae’n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth; neu
- **Filiau Cydgrynhoi** – Bil a gyflwynwyd gan aelod o Lywodraeth Cymru at ddibenion cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a’r gyfraith gyffredin yw Bil Cydgrynhoi.

## Y weithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau

Mae Rheol Sefydlog 26 yn nodi'r gweithdrefnau manwl ar gyfer craffu ar Filiau Cyhoeddus yn y Senedd. Mae hyn yn cwmpasu'r weithdrefn ar gyfer y cyflwyniad cychwynnol hyd at hysbysiad o Gydsyniad Brenhinol.

Ni waeth pwy sy'n cyflwyno Bil i'r Senedd, rhaid i'r unigolyn sy'n gyfrifol am y Bil, wrth gyflwyno'r Bil neu cyn hynny, wneud datganiad yn mynegi ei farn y byddai'r darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rhaid iddo hefyd wneud datganiad ysgrifenedig am effaith bosibl (os o gwbl) darpariaethau'r Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, a elwir yn ‘**asesiad o’r effaith ar gyfiawnder’**.

Rhaid i'r Llywydd hefyd benderfynu, cyn neu wrth gyflwyno'r Bil, a yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio, yn ei farn ef, a datgan y penderfyniad hwnnw.

Rhaid cyflwyno Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg ac eithrio yn yr achosion a ganlyn:

- os yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan yn ysgrifenedig, mewn perthynas â Bil Llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu
- os nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd.

Ar yr un pryd ag y mae Aelod yn cyflwyno Bil, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol sy'n cynnwys gwybodaeth benodol. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol, amcanion polisi'r Bil, crynodeb gwrthrychol o'r hyn y bwriedir i bob darpariaeth ei wneud a'r amcangyfrifon gorau o oblygiadau costau'r Bil.

Mae Adran 111 o Ddeddf 2006 yn cynnwys darpariaethau ynghylch agweddau gweithdrefnol ar drafodion Bil yn y Senedd. Effaith y ddarpariaeth yw bod yn rhaid i Filiau'r Senedd fynd drwy o leiaf dri chyfnod craffu yn y Senedd:

- dadl gyffredinol a chyfle i bleidleisio ar egwyddorion cyffredinol Bil;
- cyfnod sy'n cynnwys ystyried manylion Bil a chyfle i aelodau bleidleisio ar y manylion hynny; a
- chyfnod olaf lle gellir pasio neu wrthod Bil.

Fodd bynnag, **yn ymarferol**, fel y trafodir yn fanylach isod, mae Biliau'r Senedd yn gyffredinol yn mynd drwy broses graffu pedwar cam gyda'r opsiwn o Gyfnod Adrodd ychwanegol rhwng cyfnodau 3 a 4.

*Noder: mae gweithdrefnau ar wahân ar waith ar gyfer ystyried Biliau brys yn y Senedd, a eglurir **yma**.

## Y gofyniad am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai deddfwriaethau

Roedd Deddf Cymru 2017 yn **diwygio** Deddf 2006 i gyflwyno'r cysyniad o 'bynciau gwarchodedig'.

Os yw Bil Senedd yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ni ellir pasio'r Bil a'i wneud yn gyfraith oni bai bod dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd yn pleidleisio o'i blaid ar y cam olaf. Yr enw am hyn yw 'pleidlais uwch-fwyafrif'.

Yn y cyd-destun hwn, mae Bil 'yn ymwneud â' phwnc gwarchodedig pe bai'n addasu, neu'n rhoi pŵer i addasu unrhyw un o'r materion a ganlyn:

a. enw'r Senedd;

b. yr unigolion sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad ar gyfer aelodaeth o'r Senedd;

c. y system ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd;

d. manylion am etholaethau, rhanbarthau neu unrhyw ardal etholiadol gyfatebol neu eu nifer;

e. nifer yr Aelodau i'w hethol ar gyfer pob etholaeth, rhanbarth neu ardal etholiadol gyfatebol; a

f. nifer yr unigolion a gaiff fod yn Weinidogion Cymru a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006 neu’n Ddirprwy Weinidogion Cymru.

Mae'r Llywydd **yn gyfrifol yn y lle cyntaf** am benderfynu a yw Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Fodd bynnag, caiff y Cwnsler Cyffredinol neu Dwrnai Cyffredinol y DU **atgyfeirio'r cwestiwn i'r Goruchaf Lys** am benderfyniad cyn pen pedair wythnos ar ôl gwrthod neu dderbyn Bil, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

## Y broses ddeddfwriaethol

Cyn y gall y Senedd ystyried Bil, rhaid ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y Bil wedi'i osod gyda swyddogion yn Swyddfa Gyflwyno’r Senedd sy'n trefnu i'r Bil gael ei gyhoeddi ar wefan y Senedd.

### Cyfnod 1: Ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys ystyried egwyddorion cyffredinol Bil gan o leiaf un o bwyllgorau’r Senedd, ac yna dadl a phleidlais yn y Senedd.

Mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddibenion y Bil. Gall y pwyllgor hefyd wahodd sylwadau gan y rheini sydd â diddordeb, a gall ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig a llafar er mwyn llywio ei waith.

Unwaith y bydd y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad, gofynnir i'r Senedd drafod egwyddorion cyffredinol y Bil, sef y ‘ddadl Cyfnod 1’, a phleidleisio ar yr egwyddorion hyn.

Os bydd y Senedd yn pleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2.

Mewn rhai achosion, byddai Biliau arfaethedig, pe cânt eu pasio, yn arwain at fwy o wariant yn cael ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru neu'n arwain at ofynion cyllido newydd o'r gronfa. Oherwydd hyn, mae'r Llywydd yn penderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ariannol, gan roi cyfle i'r Senedd bleidleisio ar unrhyw wariant ychwanegol.

Ni ellir cynnal trafodion Cyfnod 2 hyd nes bod y Senedd yn cytuno ar benderfyniad ariannol. Os na chytunir ar benderfyniad ariannol cyn pen chwe mis ar ôl i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1, bydd y Bil yn methu.

## Cyfnod 2: Ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor (cyfnod diwygio)

Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys ystyried Bil yn fanwl a gwelliannau arfaethedig yr Aelodau gan bwyllgor.

Gall unrhyw Aelod o’r Senedd gyflwyno gwelliannau i Fil ac nid oes terfyn ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno. Fodd bynnag, dim ond aelodau pwyllgor all bleidleisio ar welliannau. Daw'r cyfnod hwn i ben pan fydd yr holl welliannau wedi'u hystyried.

## Cyfnod 3: Ystyried Bil yn y Cyfarfod Llawn (cyfnod diwygio)

Mae'r cyfnod hwn yn dilyn cwblhau Cyfnod 2 ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl, gan y Senedd gyfan, o'r Bil ac unrhyw welliannau a gynigir gan Aelodau o'r Senedd.

Gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau i Fil, ond gall y Llywydd benderfynu pa welliannau a gaiff eu hystyried gan y Senedd.

Mae Cyfnod 3 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi’i waredu neu pan fernir bod yr adran neu’r atodlen olaf wedi’i derbyn, pa un bynnag yw’r olaf.

## Cyfnodau diwygio eraill

Os yw'r Senedd yn dymuno, gall hefyd ystyried Bil yn y Cyfnod Adrodd a'r Cyfnod Adrodd Pellach.

Mae gwelliannau a ystyrir yn ystod y Cyfnod Adrodd yn ddarostyngedig i'r un prosesau a gweithdrefnau â gwelliannau a ystyrir yn ystod trafodion Cyfnod 3.

### Cyfnod 4: Y cyfnod terfynol

Dyma'r cam olaf yn y broses a daw ar ôl cwblhau Cyfnod 3 (neu'r cyfnod diwygio terfynol, fel sy'n berthnasol). Yn y Cyfnod hwn, mae'r Senedd yn pleidleisio ar gynnig i basio testun terfynol y Bil.

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd), gellir cyflwyno cynnig i basio'r Bil. Ni chaniateir ystyried cynnig o'r fath tan o leiaf bum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd, fel sy'n berthnasol). Fel arall, gyda chytundeb y Llywydd, gellir cynnig bod y Bil yn cael ei basio ar unwaith.

Os caiff Bil ei basio gan y Senedd, mae cyfnod o bedair wythnos lle mae'r canlynol yn digwydd:

- gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol atgyfeirio'r cwestiwn o ran a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r Goruchaf Lys am benderfyniad; a

- gall yr Ysgrifennydd Gwladol **wneud gorchymyn** yn gwahardd y Bil rhag cael ei anfon am Gydsyniad Brenhinol ar seiliau penodol (megis credu y byddai darpariaethau'r Bil yn cael effaith andwyol ar y gyfraith fel y mae'n gweithredu yn Lloegr).

Os na cheir her, **bydd y Llywydd yn cyflwyno'r** Bil am Gydsyniad Brenhinol gan y Brenin yn y Cyfrin Gyngor. Mae Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol pan fydd Breinlythyrau (math o offeryn cyfreithiol) o dan y Sêl Gymreig, wedi'u llofnodi â llaw y Frenhines ei hun, yn cael eu hysbysu i glerc y Senedd.

## Biliau Aelod

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Llywydd lunio a chyhoeddi amserlen ar gyfer cynnal pleidleisiau i benderfynu pa Aelodau, ac eithrio aelod o Lywodraeth Cymru, sy'n dymuno cyflwyno Bil Aelod. Ni all yr amserlen gynnwys mwy na dwy bleidlais ac ni ellir dewis mwy na thri Aelod ym mhob pleidlais. Mae hyn i bob pwrpas yn cyfyngu nifer y cynigion Biliau Aelod i chwech fesul tymor y Senedd. Os yw'r Llywydd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gall yr amserlen nodi na fydd unrhyw bleidleisiau'n cael eu cynnal.

Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys. Ni chaiff Aelod sydd wedi cael ei ddewis yn flaenorol mewn pleidlais yn nhymor y Senedd honno wneud cais.

Os bydd yn llwyddiannus mewn pleidlais, rhaid i'r Aelod ofyn am ganiatâd y Senedd i gyflwyno'r Bil. Caiff yr Aelod gyflwyno cynnig yn gofyn am ganiatâd o'r fath o fewn 60 diwrnod gwaith i'r bleidlais (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos nad yw'n eistedd) a rhaid i hyn fod ar y cyd â datganiad esboniadol yn nodi:

i. teitl arfaethedig y Bil;

ii. amcanion polisi arfaethedig y Bil;

iii. manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac

iv. asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

Bydd yn rhaid trefnu bod amser ar gael i ystyried cynnig o'r fath yn y Cyfarfod Llawn o fewn 80 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gynnwys diwrnodau gwaith pan na fydd y Cynulliad yn cwrdd).

Os bydd y Senedd yn cytuno i'r cynnig, mae gan yr Aelod dri mis ar ddeg i gyflwyno Bil i roi effaith i'r amcanion polisi arfaethedig a nodir yn y datganiad esboniadol.

Unwaith y bydd Bil Aelod wedi'i gyflwyno, mae'n dilyn yr un broses ddeddfwriaethol pedwar cam a nodir uchod.

## Biliau Cydgrynhoi

Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei gyflwyno gan aelod o Lywodraeth Cymru er mwyn cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a'r gyfraith gyffredin ar bwnc neu faes penodol.

Pwrpas Bil cydgrynhoi yw gwella hygyrchedd y gyfraith trwy ddod â hyn i gyd at ei gilydd mewn un darn o ddeddfwriaeth a moderneiddio ei ffurf a'r dull o'i ddrafftio. Ni all Biliau Cydgrynhoi ddiwygio polisi mewn unrhyw ffordd sylweddol.

Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut y gellir datblygu Bil cydgrynhoi a'r mathau o newidiadau y gellir eu gwneud i'r gyfraith, er enghraifft, cael gwared ar ddarpariaethau sydd bellach wedi darfod neu fynd i'r afael ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Mae bil cydgrynhoi yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig yn y Senedd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Rheolau Sefydlog y Senedd**, a ddiweddarwyd yn ystod y Bumed Senedd i gynnwys rheolau penodol ar gyfer biliau cydgrynhoi.

**Rhaid i Fil cydgrynhoi** gynnwys esboniad o sut y mae'r gyfraith wedi'i hailgyflwyno.

Rhaid i'r Senedd sefydlu 'pwyllgor cyfrifol' i graffu ar y Bil.

Bydd y pwyllgor cyfrifol yn ystyried a yw Bil cydgrynhoi yn bodloni'r gofynion, ac nad yw'n mynd yn rhy bell o ran newid neu gyflwyno polisïau newydd.

Mae'r camau ar gyfer bil cydgrynhoi yn wahanol i filiau arferol. Rhaid i fil cydgrynhoi fynd drwy'r camau a ganlyn cyn dod yn gyfraith.

- **Ystyriaeth gychwynnol**: mae’r pwyllgor cyfrifol yn ystyried ac yn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel bil cydgrynhoi. Yna caiff yr adroddiad hwn ei drafod yn y Cyfarfod Llawn, ac os cytunir arno mae’r Bil yn symud ymlaen i’r cam nesaf;
- **Ystyriaeth fanwl y Pwyllgor**: mae’r pwyllgor cyfrifol yn ystyried gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan unrhyw Aelod o'r Senedd. Ar ôl y cam hwn, rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r bil cydgrynhoi fynd ymlaen i'r cam nesaf;
- **Ystyriaeth fanwl y Senedd**: gall y pwyllgor cyfrifol argymell bod y Senedd yn ystyried gwelliannau, neu fod y bil yn mynd yn syth i'r cam craffu terfynol; a
- **Cam olaf**: caiff y Bil ei drafod a phleidleisir arno yn y Cyfarfod Llawn. Os bydd mwyafrif o’r Aelodau’n pleidleisio o blaid y Bil bydd yn cael ei wneud yn gyfraith.

Cyhoeddodd y Llywydd **ganllawiau i ategu’r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C** ar Filiau Cydgrynhoi ym mis Hydref 2021.

## Y Goruchaf Lys yn craffu ar Filiau'r Senedd

Nid yw Deddf y Senedd yn gyfraith os yw unrhyw un o'i darpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Er mwyn penderfynu a yw Biliau’r Senedd, neu unrhyw ddarpariaeth mewn Bil, o fewn cymhwysedd y Senedd, mae **Adran 112** o Ddeddf 2006 yn darparu

mecanwaith i'r Cwnsler Cyffredinol neu Dwrnai Cyffredinol y DU atgyfeirio at y Goruchaf Lys am benderfyniad.

Gellir atgyfeirio ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o bedair wythnos gan ddechrau gyda'r dyddiad y pasiwyd y Bil gan y Senedd. Mae’r pŵer hwn wedi’i ddefnyddio. Yn y Pwederydd Cynulliad, er enghraifft, atgyfeiriwyd dau Fil gan y Twrnai Cyffredinol ac un gan y Cwnsler Cyffredinol.

Gall y Cwnsler neu'r Twrnai Cyffredinol atgyfeirio at y Goruchaf Lys hefyd i benderfynu a yw Bil y Senedd yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Nodir y rhain yn Adran **111A o Ddeddf 2006** ac maent yn cynnwys materion megis yr unigolion sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, y system etholiadol a'r nifer uchaf a ganiateir o Weinidogion Cymru.

Mae’r **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd** yn cynnwys crynodebau o ddeddfwriaeth y Senedd sydd wedi'i atgyfeirio i’r Goruchaf Lys.

# 7. Is-ddeddfwriaeth

Caiff y rhan fwyaf o gyfraith gyhoeddus gyffredinol y Deyrnas Unedig **eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth**. Dyma ddeddfwriaeth a wneir gan unigolyn neu gorff o dan bwerau a roddir iddynt gan ddeddfwriaeth sylfaenol.

Yng Nghymru, **gwneir is-ddeddfwriaeth yn gyffredinol gan Weinidogion Cymru** o dan bwerau a roddir iddynt drwy ddeddfau galluogi, megis Deddfau'r Senedd, Deddfau Senedd y DU neu Fesurau'r Cynulliad.

Er bod Deddfau'r Senedd a Deddfau Seneddol yn darparu fframwaith ar gyfer cyfreithiau, yn aml mae llawer o'r manylion technegol yn cael eu hychwanegu wedyn drwy is-ddeddfwriaeth. Gellir ei defnyddio i roi cnawd, diweddaru a diwygio deddfwriaeth sylfaenol heb i'r Senedd neu Senedd y DU orfod pasio Deddf newydd bob tro.

Gelwir is-ddeddfwriaeth yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig hefyd, am fod y ddeddf alluogi yn dirprwyo'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.

Diffinnir is-ddeddfwriaeth yn **Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** fel:

> *[...] rheoliadau, gorchmynion, rheolau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, cynlluniau, gwarantau, isddeddfau ac offerynnau eraill a wneir o dan Deddf Cynulliad, Mesur Cynulliad, Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, neu* ***deddfwriaeth uniongyrchol UE a gymathwyd****.*

Yn ymarferol, mae'r mwyafrif o is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud gan ddefnyddio math o ddeddfwriaeth a elwir yn 'offeryn statudol Cymreig', neu 'OSC'.

## Gweithdrefn y Senedd ar Offerynnau Statudol

Yn hanesyddol sefydlodd **Deddf Offerynnau Statudol 1946** rywfaint o unffurfiaeth yn y ffordd y mae gwahanol fathau o is-ddeddfwriaeth yn cael eu gwneud a sut y mae seneddau'r DU yn craffu arnynt. Fodd bynnag, yn 2025 pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, a wnaeth ffurfioli ac a ailenwi gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer craffu ar offerynnau statudol Cymreig. Diwygiodd y Ddeddf hon

Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") i sefydlu tair gweithdrefn, a nodir yn fanwl isod.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau statudol Cymru yn destun craffu gan y Senedd. Pan wneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig, mae'r rheolau a'r gweithdrefnau seneddol a nodir yn Neddf 2019 yn berthnasol i'r ddeddfwriaeth honno. Mae'r darn galluogi o ddeddfwriaeth sylfaenol yn nodi lefel y rheolaeth seneddol sydd i'w rhoi i Offeryn Statudol Cymreig penodol.

Gellir neilltuo Offerynnau Statudol Cymreig sy'n destun gwaith craffu seneddol i un o'r mathau a ganlyn o weithdrefn graffu:

- Gweithdrefn annilysu'r Senedd;
- Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd; a
- gweithdrefn gadarnhau'r Senedd.

Gall Offerynnau Statudol Cymreig hefyd fod yn destun gofynion ychwanegol, a elwir yn aml yn weithdrefn fanylach neu 'uwchgadarnhaol'.

## Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae'r rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i **weithdrefn annilysu'r Senedd**.

Mae is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd yn dod yn gyfraith ar ddyddiad penodol, sydd fel arfer wedi'i chynnwys yn nhestun rhagarweiniol yr Offeryn Statudol Cymreig. Mae'n parhau i fod yn gyfraith oni bai bod y Senedd yn gwrthwynebu drwy basio cynnig yn penderfynu y dylid dirymu'r Offeryn Statudol Cymreig, neu ei fod yn cael ei ddatgan yn anghyfreithlon gan y llysoedd.

Sut mae'r broses yn gweithio?

- Mae'r Offeryn Statudol Cymreig perthnasol yn cael ei 'wneud' (ei gymeradwyo'n ffurfiol) gan Weinidogion Cymru yn gyntaf;
- Yna caiff ei osod gerbron y Senedd a rhaid iddo fod â Memorandwm Esboniadol sy'n cynnwys, os yw'n berthnasol, unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratoir mewn perthynas â'r Offeryn Statudol Cymreig hwnnw;

- Dylai'r Offeryn Statudol Cymreig gael ei osod gerbron y Senedd o leiaf 21 diwrnod cyn iddo ddod i rym (trafodir ymhellach isod);
- Cyn pen 40 diwrnod ar ôl gosod yr Offeryn Statudol Cymreig perthnasol, gall unrhyw Aelod gyflwyno cynnig na ellir ei newid yn galw ar y Senedd i benderfynu bod yr offeryn yn cael ei ddirymu;
- Os bydd y Senedd yn pleidleisio i ddirymu'r Offeryn Statudol Cymreig, ni fydd ganddo effaith gyfreithiol mwyach.

## Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd

Mae darnau mwy sylweddol a phwysig o is-ddeddfwriaeth a wneir gan offeryn statudol Cymreig yn destun mwy o reolaeth nag offerynnau gweithdrefn annilysu.

Mae angen gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd ar offerynnau statudol Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol cyn y gellir eu gwneud neu ddod i rym fel cyfraith.

Lle mae Offeryn Statudol Cymreig yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd:

- Mae'r Offeryn Statudol Cymreig yn cael ei osod gerbron y Senedd ar ffurf ddrafft. Rhaid iddo fod â Memorandwm Esboniadol sy'n cynnwys, os yw’n berthnasol, unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratoir mewn perthynas â'r Offeryn Statudol Cymreig hwnnw;
- Wedi hynny, gall unrhyw aelod o Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig na ellir ei newid yn galw ar y Senedd i gymeradwyo'r Offeryn Statudol Cymreig;
- Fodd bynnag, ni ellir ystyried cynnig o'r fath yn y Cyfarfod Llawn tan y cynharaf o'r canlynol:
    - mae pwyllgor materion deddfwriaethol cyfrifol y Senedd wedi adrodd ar yr Offeryn Statudol Cymreig drafft;

      ac
    - mae unrhyw un o bwyllgorau eraill y Senedd wedi adrodd ar yr Offeryn Statudol Cymreig ar ôl rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o’i fwriad i wneud hynny;

neu

- mae o leiaf 20 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod yr Offeryn Statudol Cymreig.

▪ Os bydd y Senedd yn pleidleisio i gymeradwyo'r Offeryn Statudol Cymreig, yna gall Gweinidogion Cymru wneud yr Offeryn Statudol Cymreig, a/neu gall ddod i rym neu barhau mewn grym, fel sy'n berthnasol.

## Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd

Mae gweithdrefn gadarnhau'r Senedd yn debyg i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. O dan y weithdrefn hon, gosodir yr Offeryn Statudol Cymreig ar ôl cael ei wneud gan Weinidogion Cymru ac mae'n gyfraith ar unwaith, ond efallai na fydd o reidrwydd yn dod i rym ar unwaith. Fodd bynnag, ni all yr Offeryn Statudol Cymreig aros yn gyfraith oni bai ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd o fewn cyfnod penodol o amser a nodir yn y deddfiad (yn aml 28 neu 40 diwrnod).

## Y weithdrefn uwchgadarnhaol

Mae'r weithdrefn uwchgadarnhaol, neu'r 'weithdrefn fanylach' yn darparu ar gyfer lefel uwch fyth o graffu seneddol na gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae'r weithdrefn hon yn cael ei chadw ar gyfer cyfran fach o is-ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol mae'n ofynnol o dan ddeddfau galluogi i gymeradwyo deddfwriaeth sy'n dirprwyo pwerau gweithredol eang drwy reoliad.

Er nad oes gweithdrefn fanylach unffurf, gall mesurau gynnwys:

▪ gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i osod drafft gerbron y Senedd am gyfnod estynedig o amser (fel arfer am gyfnod o 60 diwrnod);

▪ ystyried sylwadau a wnaed gan y Senedd a'i phwyllgorau neu sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cyfnod hwnnw; ac

▪ ystyried a ddylid, yn sgil sylwadau o'r fath, diwygio'r drafft terfynol sy'n cael ei osod gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.

Mae'r darnau a ganlyn o ddeddfwriaeth yn cynnwys enghreifftiau o ofynion gweithdrefnol manylach cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud rhai mathau o is-ddeddfwriaeth:

- **Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011**: O dan Adran 13, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i addasu swyddogaethau gwahanol gyrff amgylcheddol ac amaethyddol drwy 'orchymyn' (math o is-ddeddfwriaeth).

  Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn ddarostyngedig i ymgynghoriad o leiaf 12 wythnos a rhaid gosod gorchymyn drafft, ynghyd â dogfen esboniadol, gerbron y Senedd am o leiaf 40 diwrnod cyn y gellir gwneud gorchymyn.

- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**: Mae Adran 31 o'r Mesur yn grymuso Gweinidogion Cymru i addasu neu eithrio cymhwyso cyfreithiau sy'n berthnasol i awdurdodau drwy orchymyn mewn rhai amgylchiadau.

  Fel amddiffyniad, mae Adran 32 yn gosod gofynion ymgynghori ar Weinidogion Cymru, gofyniad i osod gorchymyn drafft gerbron y Senedd am 60 diwrnod, ystyried sylwadau a geir ac egluro newidiadau a wnaed i'r gorchymyn o ganlyniad i sylwadau o'r fath.

## Dim gweithdrefn

Nid yw rhai offerynnau statudol yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Senedd ffurfiol o gwbl. Er enghraifft, nid yw deddfwriaeth sy'n pennu dyddiad pan ddaw deddfwriaeth sylfaenol i rym (a elwir yn 'orchmynion cychwyn') yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ffurfiol.

## Gwaith craffu pwyllgorau ar Offerynnau Statudol

Mae'r ffordd y mae'r Senedd yn ymdrin ag Offerynnau Statudol wedi'i nodi o dan **Reol Sefydlog 21**.

Mae'n nodi swyddogaethau allweddol pwyllgorau'r Senedd y mae'n rhaid iddynt ystyried ac adrodd ar yr holl offerynnau statudol drafft perthnasol a osodir yn y Senedd (y 'pwyllgor cyfrifol').

Yn fras, mae'r pwyllgor cyfrifol yn cynnal dau ymarfer mewn perthynas ag Offerynnau Statudol:

- Craffu technegol - sy'n orfodol; a
- Chraffu ar sail rhinweddau - sy'n ddewisol.

## Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 21.2, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gynnal gwaith craffu technegol ar Offerynnau Statudol. Mae hyn yn gofyn iddo ystyried yr holl Offerynnau Statudol Cymreig neu'r Offerynnau Statudol Cymreig drafft perthnasol a osodir yn y Senedd a chyflwyno adroddiad ar p'un a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i'r offeryn ar sail unrhyw un o'r canlynol:

- yr ymddengys bod amheuaeth a yw'n 'intra vires' (h.y. o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru);
- ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;
- bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
- ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;
- bod angen esboniad pellach o'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;
- bod ei ddrafftio yn ymddangos yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â chyflawni gofynion statudol;
- ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;
- bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;
- nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd; neu
- ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adrannau 37E(6) a 37F(4) o **Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**, a'r darpariaethau cyfatebol yn Atodlenni 1B ac 1C iddi.

Mae cynghorwyr cyfreithiol i'r pwyllgor cyfrifol yn ystyried yr holl Offerynnau Statudol Cymreig perthnasol yn erbyn y seiliau hyn ac yn paratoi adroddiadau

drafft unigol ar gyfer pob un gan nodi unrhyw faterion technegol sy'n codi ('adroddiad drafft'). Mae aelodau'r pwyllgor cyfrifol yn cael adroddiadau drafft cyn cyfarfodydd pwyllgor. Yn eu cyfarfodydd, nodir yr holl bwyntiau adrodd technegol a gall y Pwyllgor benderfynu nodi'r pwyntiau, ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru neu gymryd camau dilynol eraill. Ar ôl cymeradwyo adroddiad drafft, daw'n adroddiad pwyllgor.

### Craffu ar sail rhinweddau

Mae Rheol Sefydlog 21.3 yn rhoi disgresiwn i'r pwyllgor cyfrifol ymgymryd â 'chraffu ar sail rhinweddau'. Mae hyn yn cynnwys ystyried materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd, megis offeryn statudol Cymreig nad yw'n gweithredu polisi yn y ffordd a nodwyd neu yr ystyrir ei fod yn wleidyddol gynhennus neu arwyddocaol. Gall y pwyllgor cyfrifol roi gwybod am 'bwyntiau rhinweddau' o'r fath ar gyfer Offeryn Statudol ar y seiliau a ganlyn:

- ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;
- ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd
- ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud oddi tano gael ei basio neu ei wneud ei hun; neu
- nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

## Ymdrin ag Offerynnau Statudol Cymreig gweithdrefn annilysu'r Senedd

Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol wneud unrhyw adroddiad o dan Reolau Sefydlog 21.2 (pwyntiau adrodd technegol gorfodol) a 21.3 (pwyntiau adrodd o ran rhinweddau dewisol) cyn pen 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod yn y Senedd (ac eithrio diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod).

Mae hyn er mwyn rhoi digon o amser i’r Senedd a Llywodraeth Cymru ystyried adroddiadau'r Pwyllgor cyn y bwriedir i'r offeryn statudol ddod i rym.

Mae offerynnau sy’n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu’r Senedd yn dod yn gyfraith ac yn parhau i fod yn gyfraith oni bai bod cynnig dirymu yn cael ei basio gan y Senedd. Felly, mae gosod adroddiadau pwyllgor cyfrifol yn amserol yn gwneud y Senedd yn ymwybodol o bwyntiau adrodd a nodwyd gan y Pwyllgor ac yn rhoi cyfle i unrhyw Aelod o’r Senedd gyflwyno cynnig dirymu.

Dylid gosod offerynnau statudol Cymreig gerbron y Senedd o leiaf 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Gelwir hyn yn rheol 21 diwrnod. Os na chyflawnir hyn (a elwir yn 'torri'r rheol 21 diwrnod’), rhaid i Weinidogion Cymru **hysbysu'r Llywydd** o'r ffaith hon pan fydd yr Offeryn Statudol wedi'i osod ac egluro’r rhesymau pam y digwyddodd.

## Ymdrin ag Offerynnau Statudol Cymreig gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd

Yn yr un modd ag offerynnau sy’n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu’r Senedd, ni ellir ystyried cynigion i gymeradwyo offerynnau statudol Cymreig sy’n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd yn y Cyfarfod Llawn hyd nes bod y pwyllgor cyfrifol neu unrhyw bwyllgor arall wedi adrodd ar yr offeryn drafft, neu o leiaf 20 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod yr offeryn - pa un bynnag sydd gyntaf.

Os bydd pwyllgor heblaw'r pwyllgor cyfrifol yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar offeryn, rhaid iddo roi gwybod i Lywodraeth Cymru o'i fwriad i wneud hynny o fewn 7 diwrnod ar ôl gosod yr Offeryn Statudol Cymreig.

O ystyried y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig i gymeradwyo Offeryn Statudol Cymreig drafft ar ôl 20 diwrnod, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol adrodd o fewn y cyfnod hwn i sicrhau y gellir ystyried ei bwyntiau adrodd a'i safbwyntiau pan fydd yr Offeryn Statudol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyn pleidlais.

## Adnoddau pellach ar is-ddeddfwriaeth

Mae rhagor o wybodaeth am Offerynnau Statudol Cymreig ar gael ar y gwefannau a ganlyn:

- Caiff Offerynnau Statudol Cymru eu cyhoeddi ar dudalennau **is-ddeddfwriaeth** gwefan y Senedd cyn gynted ag y cânt eu gosod.

- Mae pob Offeryn Statudol a gyhoeddwyd yn y DU ers 1987 ar gael ar **legislation.gov.uk**.

# 8. Cydsyniad Deddfwriaethol

Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i'r Senedd, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael cydsyniad y ddeddfwrfa ddatganoledig berthnasol ymlaen llaw. Rhoddir cydsyniad o'r fath drwy Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

## Cefndir: 'Confensiwn Sewel'

Gelwir y confensiwn cydsyniad deddfwriaethol sy'n darparu na fydd Senedd y DU fel rheol yn deddfu mewn meysydd polisi datganoledig heb gydsyniad datganoledig, yn 'Gonfensiwn Sewel'.

Fe'i galwyd ar ôl yr Arglwydd Sewel, a oedd yn Weinidog Gwladol yn Swyddfa'r Alban yn ystod hynt yr hyn a ddaeth yn **Ddeddf yr Alban 1998**. Yn ystod cyfnod Pwyllgor y Bil, **dywedodd yr Arglwydd Sewel** fod y Llywodraeth yn disgwyl:

> *[...] convention to be established that Westminster would not normally legislate with regard to matters within the competence of the Scottish parliament without the consent of that parliament.*

Yn wreiddiol yn ymgorffori'r confensiwn hwn yn ymarferol, mae **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a deddfwrfeydd datganoledig yn 2001, ac a gafodd ei ddiweddaru wedi hynny yn 2012, yn nodi:

> *The United Kingdom Parliament retains authority to legislate on any issue, whether devolved or not. It is ultimately for Parliament to decide what use to make of that power. However, the UK Government will proceed in accordance with the convention that the UK Parliament would not normally legislate with regard to devolved matters except with the agreement of the devolved legislature. The devolved administrations will be responsible for seeking such agreement as may be required for this purpose on an approach from the UK Government.*

Pan gynlluniodd Llywodraeth y DU wedi hynny i basio Bil o fewn cymhwysedd datganoledig yr Alban, gofynnodd am gydsyniad Senedd yr Alban i gynnwys darpariaethau o'r fath.

Wedi hynny, paratôdd Llywodraeth yr Alban Femoranda Sewel yn nodi amcanion y Bil ac fel arfer yn nodi a ddylai Senedd yr Alban, ym marn y Llywodraeth, gydsynio i'r darpariaethau arfaethedig. Yna trafodwyd y Bil a phleidleisiodd Senedd yr Alban ar 'Gynnig Sewel' i naill ai roi neu wrthod cydsyniad.

Ers 30 Tachwedd 2005, yn sgil newid terminoleg daeth cynigion Sewel yn 'Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol', a disodlwyd 'Memoranda Sewel' gyda 'Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol'.

## Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Senedd

Ers i'r Cynulliad ar y pryd gaffael pwerau deddfwriaethol sylfaenol o dan Ddeddf 2006, mae egwyddorion cydsyniad deddfwriaethol wedi'u hymestyn i Gymru.

Diwygiodd Deddf Cymru 2017 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i roi Confensiwn Sewel ar sail statudol. Mae **Adran 107(5)** Deddf 2006 yn cydnabod nad yw pŵer y Senedd i wneud Deddfau yn y Senedd yn effeithio ar bŵer Senedd y DU i ddeddfu ar gyfer Cymru, ond mae'n nodi:

> *[...] it is recognised that the Parliament of the United Kingdom will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Senedd.*

Mae Nodyn Cyfarwyddyd Llywodraeth y DU ar Ddatganoli **ar ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n effeithio ar Gymru** ar ôl datganoli yn pwysleisio pa mor bwysig yw cynnal deialog rhwng adrannau Whitehall a Llywodraeth Cymru wrth ffurfio cynigion deddfwriaethol. Mae'n datgan y canlynol:

> *As early as possible in policy development, UK government departmental Bill teams should contact the Wales Office to seek initial advice before engaging with the Welsh Government on any Welsh devolution issues relating to a Bill. Departmental Bill teams should develop close working relationships with the Welsh Government on any specific areas of devolved policy relating to those Bills, and ensure timely sharing of information from an early stage in the legislative process. The Wales Office advises and supports departments in doing this.*

## Pryd mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?

Mae **Rheol Sefydlog 29** yn nodi sut mae'r Senedd yn ymdrin â chydsyniad mewn perthynas â Biliau Seneddol y DU.

Mae'r gweithdrefnau o dan Reol Sefydlog 29 yn ymwneud ag unrhyw 'Fil Perthnasol'. Diffinnir hwn fel Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod yn rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd mewn perthynas â’r canlynol:

i. unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;

ii. unrhyw Fil Aelod Preifat yn Senedd y DU a oedd yn Fil perthnasol pan y'i cyflwynwyd ac sy'n Fil perthnasol o hyd ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod hwnnw;

iii. unrhyw Fil a gyflwynir yn Senedd y DU sydd, yn rhinwedd gwelliannau:

    i. a dderbynnir; neu

    ii. a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi,

    yn y naill Dŷ neu'r llall, yn gwneud (neu a fyddai’n gwneud) darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd o'r blaen gan y Senedd, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn.

O dan Reol Sefydlog 29.2A, rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd gael ei osod gan unrhyw Aelod o’r Senedd, ar wahân i aelod o Lywodraeth Cymru sy'n bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil perthnasol. Fodd bynnag, fel arfer rhaid iddynt beidio â gwneud hynny tan ar ôl i femorandwm gael ei osod gan aelod o Lywodraeth Cymru.

### Pa wybodaeth y mae'n rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei chynnwys?

O dan Reol Sefydlog 29.3, rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ymhlith pethau eraill:

- grynhoi amcanion polisi'r Bil;
- pennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol (diffinnir uchod); ac
- egluro a fernir ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud ac iddi gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil.

### Beth sy'n digwydd ar ôl i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod?

Fel rheol rhaid i Bwyllgor Busnes y Senedd gyfeirio unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at un neu fwy o bwyllgorau'r Senedd i'w ystyried. Rhaid iddo hefyd sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgorau hynny ystyried y memorandwm a chyflwyno adroddiad arno.

Ar ôl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gall aelod o Lywodraeth Cymru, neu unrhyw Aelod o'r Senedd sydd wedi gosod ei femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei hun gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol mewn Bil perthnasol. Er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynnig cydsyniad, **penderfynwyd** na ellir dweud bod y Senedd wedi cydsynio i'r ddarpariaeth berthnasol oni bai ei bod wedi cael cyfle i bleidleisio ar gynnig.

Os cyflwynir cynnig cydsyniad, rhaid i'r Senedd ei ystyried. Fodd bynnag, os atgyfeiriwyd memorandwm cydsyniad at bwyllgor i'w ystyried, ni ellir trafod cynnig cydsyniad hyd nes bod y pwyllgor perthnasol wedi adrodd, neu hyd nes bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau wedi'i gyrraedd.

Trafodir cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn drwy ddadl, gan arwain at bleidlais a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynnig.

## Natur gyfreithiol Confensiwn Sewel

Mae Confensiwn Sewel yn gonfensiwn gwleidyddol nad yw'n rhwymol, na ellir ei gyfiawnhau, nad yw'n arwain at rwymedigaethau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol.

Fel y trafodwyd uchod, cyn cael ei roi ar sylfaen statudol yn y setliadau datganoli, ymgorfforwyd y confensiwn yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a llywodraethau datganoledig. Er bod y Memorandwm yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol, nododd hefyd:

> *This Memorandum is a statement of political intent, and should not be interpreted as a binding agreement. It does not create legal obligations between the parties. It is intended to be binding in honour only.*

Yn dilyn codeiddio Confensiwn Sewel yn gyfreithiol, ystyriwyd ei natur gyfreithiol gan y Goruchaf Lys yn **Achos Miller** 2017.

Er gwaethaf codeiddio statudol, ni chafodd y llys ei ddarbwyllo bod hyn wedi ei droi'n rheol y gallai'r llysoedd ei dehongli a'i gorfodi. Roedd o'r farn mai diben gosod y confensiwn ar sylfaen statudol oedd ei ymgorffori fel confensiwn.

Cymhwysodd y llys yr 'egwyddorol sefydledig' - ni all llysoedd barn orfodi confensiynau gwleidyddol.

Cydnabu'r Goruchaf Lys fod gan y confensiwn rôl bwysig o ran hwyluso cysylltiadau da rhwng Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig. Dywedodd hefyd fod Confensiwn Sewel yn gweithredu fel cyfyngiad gwleidyddol ar weithgarwch Senedd y DU. Fodd bynnag, yn y pen draw, nid oedd o'r farn bod dull ei weithrediad o fewn cylch gwaith cyfansoddiadol y farnwriaeth.

Mae'n dilyn bod unrhyw gosb am fethu ag arsylwi Confensiwn Sewel yn wleidyddol, yn hytrach nag yn gyfreithiol, ei natur.

# 9. Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru (‘yr Ysgrifennydd Gwladol’) yn aelod cabinet Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol Llywodraeth y DU yng Nghymru. Nid yw’r Ysgrifennydd Gwladol yn aelod o’r Senedd na Llywodraeth Cymru.

Cafodd y swydd ei chreu yn wreiddiol ym 1964 gan y Llywodraeth Lafur o dan y Gwir Anrh. Harold Wilson AS.

Cefnogir yr Ysgrifennydd Gwladol gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol. Cefnogir y ddau gan Swyddfa Cymru.

Ar ei **gwefan** nodir y canlynol:

> *Mae Swyddfa Cymru yn cefnogi Ysgrifennydd Cymru ac Is-Ysgrifenyddion Gwladol Seneddol i hyrwyddo buddiannau gorau Cymru o fewn Teyrnas Unedig gryfach. Mae’n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli wrth galon Llywodraeth y DU, a bod cyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn cael eu cynrychioli yng Nghymru.*

**Amcanion** Swyddfa Cymru yw:

- Hyrwyddo economi Cymru a buddiannau economaidd Cymru;
- Sicrhau bod y setliad datganoli yn parhau i ddarparu setliad clir, teg a chryf i Gymru; a
- Chynrychioli buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU, a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru.

## Swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, trosglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae swyddogaethau a rôl gyfredol yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'u nodi'n fanylach yng **Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli Rhif 4** 2005 Llywodraeth y DU. Nid yw'r ddogfen wedi'i diweddaru ers i'r Cynulliad ennill pwerau deddfu llawn

yn 2011, neu ers ailenwi'r Cynulliad yn Senedd Cymru. Mae'n nodi y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn:

- gweithredu fel gwarcheidwad i'r setliad datganoli yng Nghymru;
- sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau a fydd yn effeithiol yng Nghymru;
- cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru; a
- goruchwylio cynnydd deddfwriaeth sylfaenol drwy Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth ar wahân i Gymru.

## Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Etholiadau'r Senedd

O dan **Adran 13A o Ddeddf 2006** (a fewnosodwyd gan Ddeddf Cymru 2017), gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth i gyfuno'r canlyniadau yn etholiadau arferol ac eithriadol y Senedd gyda'r canlyniadau mewn rhai etholiadau Seneddol yn y DU. Gan ddefnyddio'r pŵer hwn, gellir cyfuno etholiadau arferol y Senedd ag isetholiadau Senedd y DU, a gellir cyfuno etholiadau eithriadol y Senedd ag isetholiadau Senedd y DU ac etholiadau cyffredinol. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau cytundeb Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw reoliadau o'r fath.

# 10. Geirfa

## Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o eiriau a ddefnyddir yng nghyd-destun Senedd Cymru

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Dunlop** | Adolygiad a gynhaliwyd gan yr Arglwydd Dunlop yn 2019 i benderfynu a oedd Llywodraeth y DU yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl i wireddu'n llawn yr holl fuddion o fod yn Deyrnas Unedig. Gwnaeth argymhellion ar beiriannau'r llywodraeth, gallu'r Gwasanaeth Sifil, gwariant, cysylltiadau rhynglywodraethol, penodiadau cyhoeddus a chyfathrebu. |
| **Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol** | Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol rhwng pedair gwlad y DU. Dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet; mae swyddogion a Gweinidogion o'r pedair gweinyddiaeth yn amlinellu strwythurau rhynglywodraethol newydd. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Ionawr 2022. |
| **Aelod o'r Senedd, Aelod, neu AS** | Unigolyn a etholir i'r Senedd mewn etholiad. |
| **Bil** | Deddf arfaethedig y Senedd, Senedd y DU, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon. |
| **Comisiwn y Senedd** | Y corff corfforaethol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd i weithredu fel deddfwrfa.<br>Mae’r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. |
| **Confensiwn Cyfansoddiadol** | Mae i'r term hwn ddau ystyr ar wahân a phenodol. Yn dibynnu ar y cyd-destun, gall olygu: |

| | |
|---|---|
| | 1. Yr arferion a'r rheolau cyffredin sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng y Goron, Llywodraethau, Seneddau a'r farnwriaeth, neu arfer eu priod bwerau. Nid ydynt yn gyfreithiol rwymol, ond gall torri confensiwn arwain at ganlyniadau gwleidyddol. (Un enghraifft yw Confensiwn Sewel).<br>neu<br>2. Gorff cynrychioliadol a gafodd ei gynnull i lunio neu gynnig newidiadau i gyfansoddiad gwlad. Yna gellir defnyddio'r cynigion i lywio'r setliad cyfansoddiadol yn y dyfodol, weithiau yn ddarostyngedig i refferendwm. |
| **Confensiwn Sewel** | Confensiwn cyfansoddiadol a geir yn yr holl setliadau datganoli ar yr amod na fydd Senedd y DU fel rheol yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig. (Gweler hefyd, Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol). |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Cronfa i ddal arian cyhoeddus a ddyrennir i Gymru o dan y Grant Bloc yn ogystal â'r arian hwnnw a dderbynnir o ffynonellau eraill, megis drwy drethi a benthyca. |
| **Cwnsler Cyffredinol** | Prif gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Er ei fod yn aelod o Lywodraeth Cymru, nid yw'n un o Weinidogion Cymru. Yn gyffredinol, penodir Aelodau o'r Senedd sy'n gwasanaethu i'r rôl, gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol cyfredol, ond nid oes angen iddynt fod yn Aelod o'r Senedd. |
| **Cydsyniad Brenhinol** | Cam olaf y broses ddeddfwriaethol. Dyma gytundeb y Frenhines sy'n ofynnol i wneud Bil yn Ddeddf y Senedd neu'n Ddeddf Seneddol. Er bod gan y Frenhines yr hawl i wrthod yn dechnegol, heddiw mae cydsyniad yn gonfensiwn cyfansoddiadol ac yn cael ei ystyried yn ffurfioldeb. |

| | |
|---|---|
| Cyfansoddiad | Y corff o egwyddorion, deddfau, rheolau, confensiynau a gweithdrefnau sylfaenol y mae gwladwriaeth yn cael eu llywodraethu yn unol â hwy. Yn wahanol i'r mwyafrif o wledydd, nid oes gan y DU gyfansoddiad wedi'i godio sydd wedi'i gynnwys mewn un ddogfen. Yn hytrach, mae ei gyfansoddiad heb ei godeiddio ac mae wedi datblygu dros ganrifoedd i gynnwys cyfraith statud, cyfraith gwlad, confensiynau a'r Uchelfraint Frenhinol. |
| Cyfarfod Llawn | Cyfarfod llawn o Aelodau o'r Senedd yn y Siambr i gynnal busnes. |
| Cyfraith yr UE a ddargedwir | Trosodd corff cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig ar 31 Rhagfyr 2020 o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.<br>Yn ei hanfod, cymerodd y Ddeddf gipolwg o gyfreithiau'r UE a oedd yn berthnasol yn y DU pan ddaeth cyfnod pontio'r UE i ben. Roedd hyn yn cynnwys rheoliadau a chyfreithiau’r UE sy'n berthnasol yn uniongyrchol i weithredu Cyfarwyddebau'r UE.<br>Er mwyn sicrhau bod cyfreithiau’r UE a ddargedwir yn gweithio mewn cyd-destun domestig ar ôl i'r DU ymadael â’r UE, gwnaeth llywodraethau'r DU nifer sylweddol o welliannau iddynt drwy is-ddeddfwriaeth.<br>O dan y Ddeddf, daeth cyfreithiau’r UE a ddargedwir nad oeddent wedi'u ddirymu erbyn diwedd 2023, i gael eu hadnabod fel cyfraith a gymathwyd. Yn wahanol i gyfreithiau’r UE a ddargedwir, ni chaiff cyfraith a gymathwyd ei dehongli yn unol ag egwyddorion dehongli'r UE. |
| Cyfrin Gyngor | Corff i gynghori'r Frenhines ar arfer ei swyddogaethau Uchelfraint Brenhinol neu'r swyddogaethau hynny a neilltuwyd i'r Sofran gan Ddeddfau Seneddol.<br>Caiff penderfyniadau'r Cyfrin Gyngor eu cofnodi mewn Gorchmynion sydd â grym cyfraith (gweler |

| | |
|---|---|
| | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor). Penderfyniad y Llywodraeth yw'r mwyafrif o Orchmynion a gymeradwyir wedi hynny gan y Frenhines fel mater o drefn. |
| **Cymhwysedd Deddfwriaethol** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio cwmpas pŵer y Senedd i wneud cyfreithiau.<br>Rhaid i ddarpariaeth fodloni pob prawf o dan Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru i fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw Deddf y Senedd yn gyfraith os yw unrhyw un o'i darpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. |
| **Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | Corff rhynglywodraethol a sefydlwyd i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, Maer Llundain a Meiri Awdurdodau Cyfunol a Meiri Awdurdodau Sirol Cyfunol. Nodir aelodaeth lawn y Cyngor ar wefan Llywodraeth y DU. |
| **Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig** | Yr haen uchaf o ymgysylltu rhynglywodraethol sy'n goruchwylio'r berthynas rhwng y DU a llywodraethau datganoledig. |
| **Cynnig** | Cynnig a wneir er mwyn cael penderfyniad gan y Senedd. |
| **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** | Y modd y mae'r Senedd yn nodi'n ffurfiol ei chydsyniad i Senedd y DU basio deddfau ar faterion datganoledig.<br>Ar ôl gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, gall aelod o Lywodraeth Cymru (neu Aelod o'r Senedd sydd wedi gosod ei femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei hun) wedyn gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gofyn am gytundeb y Senedd i'r ddarpariaeth arfaethedig mewn Bil perthnasol. Bydd Aelodau o'r Senedd yn trafod ac yn pleidleisio ar y cynnig i benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad. |

| | |
|---|---|
| | Yn flaenorol, gelwid Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn Gynigion Sewel (gweler Confensiwn Sewel). |
| **Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol** | Cynnig a gyflwynir gan unrhyw Aelod (gan gynnwys ar ran Llywodraeth Cymru) sy'n ceisio cytundeb y Senedd i gynnwys y ddarpariaeth a ddisgrifir yn y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol perthnasol. |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Cymru, neu'r Cynulliad** | Dyma enw blaenorol y Senedd. Diweddarwyd y derminoleg o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (gweler Senedd Cymru).<br>Sefydlwyd y Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn dilyn refferendwm 1997. |
| **Cytundebau Rhynglywodraethol** | Cytundeb nad yw'n rhwymol yn gyffredinol a wneir rhwng dwy lywodraeth neu fwy.<br>Mewn cyd-destun cyfansoddiadol Cymru, mae'r term yn aml yn ymwneud â chytundebau yr ymrwymwyd iddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel ffordd o gytuno ar ddefnyddio rhai pwerau mewn meysydd datganoledig. |
| **Datganiad Ysgrifenedig 30C** | Os bydd Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth ar fater datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30C.<br>Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig:<br>▪ grynhoi diben yr Offeryn Statudol;<br>▪ nodi ei effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru; ac<br>▪ os yw'n berthnasol, rhoi'r rheswm y cydsyniodd Llywodraeth Cymru â'r offeryn. |

| | |
|---|---|
| **Deddf Cymru 2014** | Gwnaeth y Ddeddf hon ddarparu'r pŵer i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer trethi Cymru. Cynigiodd greu dau fath o dreth ddatganoledig ar drafodiadau tir a gwarediadau tirlenwi, a gosod cyfraddau treth incwm ar gyfer Cymru. Gwnaeth y Ddeddf hefyd ymestyn pwerau benthyca Gweinidogion Cymru. |
| **Deddf Cymru 2017** | Newidiodd y Ddeddf hon y setliad datganoli yng Nghymru drwy ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.<br>Roedd y Ddeddf yn ymgorffori'r Senedd fel rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU. O ganlyniad i hyn, ni ellir diddymu'r Senedd na Llywodraeth Cymru heb gytundeb pobl Cymru.<br>Newidiodd hefyd y setliad datganoli yng Nghymru o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau. |
| **Deddf gan y Senedd** | Gweler Deddf y Senedd. |
| **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** | Deddf Seneddol sy'n darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol i setliad datganoli Cymru.<br>Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ynghylch:<br>▪ etholiadau cyffredinol y Senedd;<br>▪ Cyfansoddiad a swyddogaethau Llywodraeth Cymru;<br>▪ Pŵer y Senedd i basio deddfau, gan gynnwys cwmpas ei chymhwysedd deddfwriaethol; a<br>▪ Materion ariannol, fel gwariant a benthyca cenedlaethol. |
| **Deddf Seneddol** | Bil sydd wedi'i basio gan Senedd y DU ac sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol. Cyfeirir ato weithiau fel 'statud' ac mae'n fath o ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| **Deddf y Senedd** | Bil sydd wedi'i basio gan y Senedd ac sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'n fath o deddfwriaeth sylfaenol. |

| | |
|---|---|
| **Deddfiad Gwarchodedig** | Deddf, neu adrannau o Ddeddf, na all y Senedd wneud addasiadau iddynt, na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i wneud addasiadau iddynt, fel y nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru. |
| **Deddfwrfa** | Corff deddfu lle mae deddfau newydd yn cael eu trafod a'u pasio. Mae deddfwrfa hefyd yn dwyn y weithrediaeth i gyfrif am ei phenderfyniadau a'i pholisïau (gweler Gwahanu Pwerau).<br>Mae'r Senedd a Senedd y DU ill dau yn ddeddfwrfeydd. |
| **Deddfwriaeth Ddirprwyedig** | Gweler Is-ddeddfwriaeth |
| **Deddfwriaeth sylfaenol** | Y term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio Deddfau'r Senedd, Deddfau Seneddol a Mesurau'r Cynulliad. |
| **Dirprwy Weinidog Cymru** | Aelod o'r Senedd sy'n gwasanaethu a benodir i gynorthwyo'r Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wrth arfer eu swyddogaethau. Ni all nifer gyfunol Dirprwy Weinidogion Cymru a Gweinidogion Cymru (ac eithrio'r Prif Weinidog) fod yn fwy na deuddeg unigolyn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Cyfeirir at yr aelodau hyn o'r llywodraeth fel Gweinidogion ar hyn o bryd. |
| **Fformiwla Barnett** | Defnyddir hwn i gyfrifo'r newid yn y grant bloc a ddyrennir i Lywodraeth Cymru. Os bydd Llywodraeth y DU yn newid gwariant yn Lloegr mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llawn neu'n rhannol, bydd grant bloc Cymru fel arfer yn newid hefyd. Yn aml, y term a roddir i'r arian hwn yw 'arian canlyniadol'. |
| **Fframweithiau Cyffredin** | Cytundebau rhwng y DU a llywodraethau datganoledig ar sut i reoli gwahaniaeth rhwng gwahanol rannau o'r DU, mewn rhai meysydd polisi a arferai gael eu llywodraethu ar lefel yr UE. Weithiau maent yn cael eu tanategu gan |

| | |
|---|---|
| | ddeddfwriaeth ac yn destun craffu ym mhedwar deddfwrfa'r DU. |
| **Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol** | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, a ddefnyddiwyd rhwng 2007-2011, i ddiwygio Atodlenni 7A a 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sydd, yn y drefn honno; y rhestr o Faterion a Gedwir yn Ôl a'r cyfyngiadau cyffredinol ar allu'r Senedd i ddeddfu. |
| **Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor** | Gorchmynion Statudol neu Uchelfreiniol sydd wedi'u cymeradwyo'n bersonol gan y Frenhines mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor.<br>Gwneir Gorchmynion Statudol o dan bwerau a roddir i'r Frenhines yn sgil deddfwriaeth sylfaenol.Gwneir Gorchmynion Uchelfreiniol gan ddefnyddio pŵer cynhenid y Goron. Mae gan y ddau fath rym yn y gyfraith. Yn ymarferol, mae'r mwyafrif o Orchmynion Statudol yn cael eu gwneud gan offerynnau statudol. (Gweler Cyfrin Gyngor) |
| **Grant Bloc** | Yr elfen o gyllid pob Llywodraeth ddatganoledig sy'n dod o Lywodraeth y DU. Rhoddir yr arian a dderbynnir yng Nghronfa Gyfunol Cymru. |
| **Grwpiau Rhyngweinidogol** | Yr haen gyntaf o strwythurau ymgysylltu rhynglywodraethol. Dylai cyfarfodydd rheolaidd ddigwydd rhwng Gweinidogion o bedair llywodraeth y DU ar lefel portffolio. |
| **Gwahanu Pwerau** | O dan yr athrawiaeth hon, yn draddodiadol rhennir y gwaith o lywodraethu gwladwriaeth yn dair cangen: gweithrediaeth, deddfwrfa a barnwriaeth. Bwriad hyn yw atal unrhyw gangen neu unigolyn rhag bod yn oruchaf a chyflwyno 'gwiriadau a balansau' lle gall un gangen gyfyngu ar un arall drwyddynt. |
| **Gwaith craffu deddfwriaethol** | Yr archwiliad manwl o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a'u dogfennaeth gysylltiedig gan bwyllgorau'r Senedd. |

| | |
|---|---|
| **Gweinidog Cymru** | Aelod o'r Senedd sy’n gwasanaethu a benodir gan y Prif Weinidog a'i gymeradwyo gan y Frenhines o dan Adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.<br>Fe'u gelwir yn gyffredin yn 'Weinidogion'. Maent yn uwch-aelodau o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am faterion o fewn maes pwnc diffiniedig, megis iechyd neu addysg. Ni all nifer gyfunol Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru (ac eithrio'r Prif Weinidog) fod yn fwy na deuddeg unigolyn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, cyfeirir at yr Aelodau hyn o’r llywodraeth fel Ysgrifenyddion Cabinet. |
| **Gweinidogion Cymru** | Y term cyfunol a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i gyfeirio at y Prif Weinidog a'r Gweinidogion a benodir o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (gweler Gweinidog Cymru). |
| **Gweithrediaeth** | Cangen y llywodraeth o dan yr athrawiaeth gwahanu pwerau sy'n gyfrifol am lunio polisi a chynnig deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cynnwys y weithrediaeth yng Nghymru. |
| **Is-ddeddfwriaeth** | Caiff ei alw hefyd yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig.<br>Fe'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 fel rheoliadau, gorchmynion, rheolau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, cynlluniau, gwarantau is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wneir o dan Ddeddf y Senedd, Mesur y Cynulliad, Deddf Seneddol neu Gyfraith yr UE a Ddargedwir. |
| **Llywodraeth Cymru** | Cangen Gweithrediaeth y llywodraeth yng Nghymru a sefydlwyd o dan adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.<br>Mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion datganoledig, datblygu a gweithredu polisi a chynnig deddfau yng Nghymru.<br>Mae ei aelodaeth yn cynnwys:<br>▪ Y Prif Weinidog; |

| | |
|---|---|
| | ▪ Gweinidogion Cymru;<br>▪ Y Cwnsler Cyffredinol; a<br>▪ Dirprwy Weinidogion Cymru.<br>Fel rheol, ffurfir Llywodraeth Cymru gan y blaid sy'n ennill y nifer fwyaf o seddi'r Senedd yn etholiad cyffredinol y Senedd, gan weithredu ar ei phen ei hun neu gyda chefnogaeth un neu fwy o bleidiau. |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Teitl blaenorol Llywodraeth Cymru. Diweddarwyd y derminoleg o dan Ddeddf Cymru 2014. |
| Llywydd | Caiff y Llywydd ei ethol gan bob un o Aelodau o'r Senedd ac mae'n gwasanaethu'r Senedd mewn modd diduedd. Ei brif rôl yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, cadw trefn yn y Siambr a sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu dilyn. Mae gan y Llywydd hefyd un neu ddau Ddirprwy sy'n cyfnewid gydag ef neu hi wrth gadeirio sesiynau'r Cyfarfod Llawn ac wrth fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau i godi proffil y Senedd. |
| Materion a gedwir yn ôl | Mae'r rhain yn faterion neu'n bynciau penodol sydd wedi'u cadw'n benodol i Senedd y DU yn Neddf Llywodraeth Cymru, ac na all y Senedd ddeddfu drostynt.<br>Rhennir y rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn gymalau cadw cyffredinol a phenodol o dan Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru.<br>Os yw darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Senedd 'yn ymwneud â' mater a gedwir yn ôl, mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.Mae adran 108A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a chyfraith achos yn cynorthwyo gyda'r dehongliad o 'yn ymwneud â' yn y cyd-destun hwn. |
| Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol | Memorandwm a osodir gerbron y Senedd mewn perthynas ag unrhyw Fil a gyflwynir yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei |

| | |
|---|---|
| | chymhwysedd deddfwriaethol ('Bil Perthnasol'). Rhaid i'r Memorandwm, ymhlith pethau eraill, grynhoi amcanion polisi'r Bil Perthnasol ac egluro a ystyrir ei bod yn briodol gwneud y ddarpariaeth honno.<br><br>Rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â Bil Perthnasol gael ei osod gerbron y Senedd gan aelod o Lywodraeth Cymru, a chan unrhyw Aelod o'r Senedd sy'n bwriadu cyflwyno ei gynnig cydsyniad deddfwriaethol ei hun. |
| **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol** | Os gosodir offeryn statudol gerbron Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30A.<br><br>Rhaid i'r Memorandwm grynhoi amcan yr Offeryn Statudol ac egluro a yw'n ystyried ei bod yn briodol i ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud. Wedi hynny, mae pwyllgor materion deddfwriaethol y Senedd (y pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar hyn o bryd) yn ystyried y Memorandwm ac yn adrodd arno, a gall unrhyw Aelod gyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol wedi hynny. |
| **Mesur y Cynulliad** | Math o deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan y Cynulliad rhwng 2007 a 2011 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol). |
| **Meysydd Datganoledig neu Faterion Datganoledig** | Materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. |
| **Model Cadw Pwerau** | O dan y model datganoli hwn, gall deddfwrfa basio deddfau ar unrhyw fater oni bai ei fod yn cael ei atal yn benodol rhag gwneud hynny.<br><br>Newidiodd Deddf Cymru 2017 y setliad datganoli yng Nghymru o Fodel Rhoi Pwerau i Fodel Cadw |

| | |
|---|---|
| | Pwerau. Mae hyn yn golygu y gall y Senedd basio deddfau ar bob mater, ac eithrio materion a gedwir yn ôl. |
| **Model Rhoi Pwerau** | O dan y model datganoli hwn, dim ond mewn perthynas â materion a roddwyd yn benodol iddo y gall deddfwrfa basio deddfau.<br>Arferai'r setliad datganoli yng Nghymru fod yn seiliedig ar y Model Rhoi Pwerau lle roedd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi'i gyfyngu i ddeddfu mewn un ar hugain o feysydd pwnc lle'r oedd Senedd y DU wedi rhoi pwerau penodol iddo wneud hynny. Mae Deddf Cymru 2017 wedi newid y setliad datganoli yng Nghymru i Fodel Cadw Pwerau. |
| **Offerynnau Statudol** | Ar ba ffurf y caiff y mwyafrif o is-ddeddfwriaeth ei wneud. Mae gan Offerynnau Statudol yr un grym cyfraith â deddfwriaeth sylfaenol.<br>Mae'r pŵer i wneud Offerynnau Statudol, yn ogystal â chwmpas pŵer o'r fath, wedi'i nodi yn y darn perthnasol o ddeddfwriaeth sylfaenol, a elwir yn Ddeddf 'galluogi' neu'n Ddeddf 'rhiant'.<br>Yng Nghymru, rhoddir y pŵer i wneud Offerynnau Statudol yn gyffredinol i Weinidogion Cymru. |
| **Panel Arbenigol** | Deddf Seneddol a ddarparodd y sylfaen ddeddfwriaethol wreiddiol i setliad datganoli Cymru.Sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff corfforaethol.<br>Cafodd llawer o'r Ddeddf ei diddymu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. |
| **Prif Weinidog** | Aelod o'r Senedd a enwebir gan y Senedd a'i benodi gan y Frenhines i fod yn Brif Weinidog Cymru. Arweinydd Llywodraeth Cymru ydyw. |
| **Pwnc gwarchodedig** | Mae adran 111A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhestr o faterion a elwir yn 'bynciau gwarchodedig'. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r unigolion sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r |

| | |
|---|---|
| | Senedd, y system etholiadol a'r nifer uchaf a ganiateir o Weinidogion Cymru.<br>Gall y Senedd ddal i basio Biliau ar bynciau gwarchodedig, ond mae Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu bod yn rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd bleidleisio i Fil o'r fath basio. Gelwir hyn yn uwchfwyafrif y Senedd.<br>Y Llywydd sy'n penderfynu i ddechrau a yw Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ond gall y dyfarniad gael ei atgyfeirio at y Goruchaf Lys gan y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol. |
| **Pwyllgor o'r Senedd Gyfan** | Mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod pan fydd gwelliannau i Fil yn cael eu hystyried yn nhrafodion Cyfnod 2 gan bob un o Aelodau o'r Senedd, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n cael eu hethol i bwyllgor penodol. |
| **Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC)** | Pwyllgor rhyngweinidogol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Drysorlys EM a gweinidogion cyllid y llywodraethau datganoledig. Mae'r pwyllgor yn ystyried materion cyllid ac ariannu. |
| **Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol** | Yr haen ganol o strwythurau ymgysylltu rhynglywodraethol. Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried materion na ellir eu hystyried ar lefel y portffolio o fewn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol perthnasol, yn dwyn ynghyd ystyriaethau strategol sy'n effeithio ar lawer o bortffolios gwahanol ac yn trafod unrhyw faterion rhyngwladol trawsbynciol. |
| **Refferendwm** | Y weithdrefn ar gyfer cyfeirio cwestiwn gwleidyddol at yr etholwyr am benderfyniad drwy bleidlais. (Gweler Refferendwm 1979, 1999 a 2011, isod). |
| **Refferendwm 1979** | Refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru ar 1 Mawrth 1979 i benderfynu a ddylid cael Cynulliad yng Nghymru. Gwrthodwyd y cynnig gan 79.7 y cant i 20.3 y cant. |

| | |
|---|---|
| **Refferendwm 1997** | Refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru ar 18 Medi 1997 i benderfynu a ddylid cael Cynulliad yng Nghymru. Y canlyniad oedd 50.3 y cant o blaid, a 49.7 y cant yn erbyn gyda mwyafrif o 6,721. Yn dilyn Refferendwm 1997, sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| **Refferendwm 2011** | Refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011 i benderfynu a ddylai'r Cynulliad Cymru ar y pryd gael mwy o bwerau deddfu.<br>Pleidleisiodd 63.5 y cant o blaid, gan ateb "ydw" i'r cwestiwn "A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?".<br>Ar y pryd, rhoddodd hyn y pŵer i'r Cynulliad wneud Deddfau Cynulliad ar yr holl faterion datganoledig o dan y model rhoi pwerau. |
| **Rheolau Sefydlog** | Rheolau ysgrifenedig sy'n llywodraethu Trafodion y Senedd. Maent yn rhagnodi sut y dylai'r Aelodau ymddwyn, sut y caiff Biliau eu prosesu a sut y caiff dadleuon eu trefnu. |
| **Senedd** | Mae i'r term hwn ddau ystyr penodol. Yn dibynnu ar y cyd-destun, gall gyfeirio at:<br>1. Y term a ddefnyddir yn gyffredin sy'n cyfeirio at y naw deg chwech o Aelodau o'r Senedd sy'n creu Senedd Cymru;<br>neu<br>2. Y prif adeilad cyhoeddus sy'n gartref i Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. |
| **Senedd Cymru** | Y 96 o Aelodau o'r Senedd a etholwyd gan bobl Cymru yn etholiad cyffredinol y Senedd i'w cynrychioli hwy a'u cymunedau lleol yn y Senedd. |
| **Setliad Datganoli** | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r trefniadau datganoli ym mhob gwlad ddatganoledig yn y DU. Mae'r setliad datganoli presennol ar gyfer Cymru wedi'i nodi yn Neddf |

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y Model Cadw Pwerau. |
| **Siambr** | Y brif siambr drafod yn adeilad y Senedd lle cynhelir y Cyfarfod Llawn. |
| **Sofraniaeth Seneddol** | Yr egwyddor yng nghyfraith gyfansoddiadol y DU mai Senedd y DU yw'r awdurdod cyfreithiol goruchaf yn y DU. O dan ei dealltwriaeth uniongred, mae gan Senedd y DU bŵer diderfyn i lunio neu ddad-wneud unrhyw ddeddfau fel y gwêl yn briodol. Yn gyffredinol, ni all y llysoedd ddiystyru ei deddfwriaeth ac ni all unrhyw Senedd basio deddfau na all Seneddau yn y dyfodol eu newid. Weithiau fe'i gelwir hefyd yn 'oruchafiaeth seneddol'. |
| **Statud neu Lyfr Statud** | Term arall am ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| **Trafodion y Senedd** | Unrhyw drafodion y Senedd, gan gynnwys y Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor. |
| **Ysgrifennydd Gwladol Cymru** | Aelod cabinet Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol Llywodraeth y DU yng Nghymru.<br>Mae deiliad y swydd:<br>▪ yn gyfrifol am sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith yng Nghymru;<br>▪ yn cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru; ac<br>▪ yn gyfrifol am sicrhau bod deddfwriaeth Cymru yn unig yn pasio drwy'r Senedd. |